ECO'R WYDDFA

RHIF 7 MEDI 1976 Pris 8g

Hawdd yw dwedyd "Dacw'r Wyddfa",
Nid eir drosti ond................MEWN

## 1awr... 12munud... 5eiliad



*D.J.Francis o Fryste yn llamu i gyrraedd yr amser anhygoel o 1 awr 12 munud a 5 eiliad. 'Roedd wedi cyrraedd y copa mewn 44 munud 57 eiliad. Ef oedd y cyntaf o'r llu rhedwyr a luniodd y daith flinedig i fyny ac i lawr yr Wyddfa ddydd Sadwrn Carnifal Llanberis. Mae hon am fod yn ras flynyddol ac fel y crybwyllodd Mr Francis ar ddiwedd y ras, daw llawer mwy yma y flwyddyn nesaf o bob rhan o'r wlad i geisio gwella'r amser. Ysgwn i ai un o ardal Eco'r Wyddfa fydd hwnnw? Beth amdani, hogia (neu genod)? Dangosir mwy o luniau'r ras yn y rhifyn hwn.*

# ARSWYD ATOMIG

## *YN Y FRO HON ?*

**Wyt ti'n un golew am wneud jigsaw? Tria ffitio'r darnau gwybodaeth yma i'w gilydd:**

**Yn ddiweddar galwodd Anthony Benn, Ysgrifennydd Ynni y Llywodraeth, am sylwadau'r cyhoedd ar fwriad y dosbarth llywodraethol i godi math newydd o atomfa ym Mhrydain. Nid atomfeydd fel rhai Trawsfynydd a'r Wylfa ond math cwbl wahanol sy'n defnyddio ymweithydd bridiol cyflym (fast breeder reactor). Mae'r ymweithydd yma yn golygu cynyddu'n aruthrol y Plwtoniwm gynhyrchir.**

gan **DRAENOG 'DI DYCHRYN**

Plwtoniwm yw'r defnydd mwyaf peryglus sy'n bod. Plwtoniwm yw defnydd ymbelydrol (radioactive) y bom niwcliar. Mae Plwtoniwm yn fygythiad i fodolaeth dyn ar y blaned hon. Mae'r gronyn lleiaf o Blwtoniwm yn medru achosi cancr; buasai sefydlu economi, sy'n dibynnu ar atomfeydd o'r math newydd yn golygu cynhyrchu tunnelli o Bliwtoniwm. **Dychmyga derfysgwyr yn cael gafael ar bwys o'r stwff!**

'D'oes 'na ddim ffasiwn beth ag ymweithydd perffaith ddiogel; mae 'na bob amser berygl o lygredd ar lefel leol neu gyfandir cyfan.

Cynhyrcha'r ymweithydd newydd beth wmbredd o wastraff ymbelydrol nad oes modd ei ystorio'n berffaith ddiogel. Bydd y gwenwyn yma yn ymbelydrol am rai miloedd o flynyddoedd.

Bydd y Plwtoniwm yma yn cael ei gario ar draws gwledydd. Hawdd gweld y buasai'r angen am fyddinoedd o blismyn a milwyr i'w warchod yn esgus i'r dosbarth llywodraethol roi terfyn ar y rhith o ddemocratiaeth a rhyddid sydd gennym.

### CYNLLUN DINORWIG

Mae prosiect Dinorwig ei hun yn un diniwed (ag eithrio'r niwed i'r hogia sy'n gweithio yno).

Cynllun i storio trydan yw un Dinorwig; ni fydd yno unrhyw ddefnydd ymbelydrol. Yn fras iawn bydd y trydan gynhyrchir yn atomfeydd Trawsfynydd a'r Wylfa yn cael ei 'storio' yn Ninorwig.

**Ond mae rhai yn amau bod atomfa arall i'w chodi yn bartnar i gynllun Dinorwig.**

### Y POTES PLWTONIWM

Mae sawl cwmni preifat a'u bysedd yn y potes Plwtoniwm; rhan fwyaf ohonynt yn plethu i'w gilydd yn grwpiau cydwladol.

Diddorol yw nodi enwau fel Syr Edwin McAlpine a K. McAlpine yn gadeirydd a chyfarwyddwr y cwmni Nuclear Power Group sydd a'i bencadlys yn Radbroke Hall, Knutsford yn Sir Gaer. Cwmni preifat yw hwn sy'n gwneud ei elw drwy gynllunio ac adeiladu ymweithyddion niwcliar.

Noder hefyd enw is-Gadeirydd British Nuclear Associates, a neb llai na'r hybarch gyfalafwr Syr Robert Edwin McAlpine.

### MARWOLAETH

Daeth gwybodaeth i law ddechrau'r mis bod 'arbenigwyr' yr Atomic Energy Authority wedi newid eu meddyliau. Y llynedd roeddynt o blaid datblygu atomfa ar gynllun Prydeinig am ei fod yn saffach na'r ymweithydd cynllun Americanaidd. Nawr maent yn dweud y dylid codi'r un Americanaidd!

Mae hyn yn fy atgoffa o'r hyn ddigwyddodd i Karen Silkwood oedd yn gweithio mewn gwaith cynhyrchu Plwtoniwm yn Crescent, Oaklahoma. Roedd ar ei ffordd i gyfarfod swyddog ei hundeb a gohebydd o'r New York Times gydag adroddiad llawn ar beryglon y gwaith pan orfodwyd ei char oddi ar y ffordd. Lladdwyd Karen; welwyd byth mo'i hadroddiad. Ia, peth budr ydi Pliwtoniwm

### ATOMFA TRAWS

Newidiodd y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yr arwydd tu allan i Atomfa Trawfynydd fel nad yw bellach yn cynnwys y gair Atomfa. Yn awr gelwir yr Atomfa yn swyddogol yn 'Gorsaf Gynhyrchu'. Pam tybed? Paratoi ein meddyliau hwyrach?

Hefyd, adeiladwyd yn ddiweddar ar safle Atomfa Trawsfynydd offer newydd i drin sborion ymbelydrol. Nid ydynt am adael i ni wybod be sy'n mynd ymlaen yno. Ai ystorio Plwtoniwm ar gyfer trydydd Atomfa yw'r bwriad?

### ADRODDIAD ARBENNIG

Cafodd Draenog afael ar adroddiad gynhyrchwyd gan Brian Archer yn Adran Economeg Prifysgol Cymru. Y teitl yw 'The Impact of An Atomic Power Station on the Economy of Gwynedd', Son mae'r adroddiad am drydydd atomfa Gwynedd. Yn y fro hon?

### TRWY LYGAID COCHION

Wel, ydi'r darnau yn ffitio i'w lle? Pa siap sydd i'r jigsaw? Arswyd Atomig? Diolch i'r draenogiaid fentrodd i gasglu'r ffeithiau i'n rhybuddio o'r bygythiad technolegol cyfrinachol sy'n cael ei drafod yng nghynteddau'r dosbarth cyfalafol.

Barn Draenog yw bod hyn yn dangos yn glir bod y dosbarth cyfalafol yn barod i fentro ymhellach i faes economi y bom atomig. Y dehongliad sosialaidd yw eu bod yn cael eu gwasgu i wneud hyn am fod eu gafael ar adnoddau ynni eraill yn lleihau. Mae'r olew yn mynd o'u gafael yn y Dwyrain Canol, mae'r wraniwm yn prinhau ac mae'r glowyr a'r dosbarth gweithiol yn araf sylweddoli mai nhw ddylai fod y meistri glo.

**Robert McAlpine, Syr, – fe ddaw'r dydd.** Dim ond gobeithio y daw cyn i dy ddosbarth di a'u ffordd o feddwl a'u Plwtoniwm ein dinistrio i gyd.

**ECO'R WYDDFA**

RHIF 7 MEDI 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

# LLYTHYRAU

# YR HEN LUNIAU YN CREU YMATEB



Trem Eilian,
Brynrefail,

Annwyl Olygydd,

Roeddwn yn falch iawn o weld llun fy nhad, sef Edward Jones, Perthi Isaf, yng Nghôr Elidir tu cefn yr ochr chwith i'r arweinydd.

Dyma finnau'n anfon y llun yma o De Parti yng Nghapel Ysgoldy gydag Alafon, ein gweinidog ar y top. Tynnwyd y llun tua 1911.

Fy chwaer a minnau yw'r ddwy efallai sydd ar y gwaelod. Hefyd mae fy mam yna a'r saeth wrth ei phen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'n gadael erbyn hyn.

Yn gywir,
Gwyneth Jones.

Bryn Llwyd,
Newton Street,
Llanberis.

Annwyl Syr,

Wrth edrych yn ôl ar Rhifyn 2 o **Eco'r Wyddfa** gwelais lun injan oedd yn rhedeg yn Gilfach Ddu yn 1895. Yr oeddych yn gofyn a oedd rhywun yn gwybod pwy oedd y bobl o gwmpas yr injan. Y pumed dyn o'r chwith hefo het galed am ei ben yw **Mr. John Jones, Victoria Villa,** a'i fab oedd Brwynog Jones, Victoria Terrace, ac y mae merch Brwynog Jones yn byw heddiw yn Victoria Terrace. Y cyntaf ar y chwith yw fy Nhaid **Mr. William Roberts, Tan-y-graig** ac yr oedd ganddo ddau fab sef John Roberts a Robert Roberts. Roedd John Roberts yn byw yn Glanffrwd ac y mae dwy ferch iddo yn fyw heddiw, a Robert Roberts hefo tair merch yn byw yn Llys Tudur.

Yr eiddoch,
Mrs. E. Griffiths.

34, Overton Avenue,
Ceg-y-Ffordd,
Prestatyn,
Clwyd.

Annwyl Syr,

Derbyniais **Eco'r Wyddfa** gan fy mab Dei Jones o Bebington. Yn rhifyn 5 (Gorffennaf 1976) ar dudalen 5 mae darlun o Gôr a Cherddorfa Cwm-y-Glo 1909, ac rydych yn gofyn am unrhyw wybodaeth amdanynt. Gallaf enwi rhai ohonynt. Yn y rhes uchaf o'r merched mae **Lizzie Jane Williams** 13 oed o Cwm-y-Glo y gyntaf ar y chwith, hi oedd yr ieuengaf yn y côr. Fe briodais â hi yn y flwyddyn 1919, merch oedd i **Dafydd Williams** y teiliwr yng Nghwm-y-Glo ac mae ei lun yn y uchaf, y chweched o'r dde o flaen y golofn. Ar y dde iddo mae **John Davies y Postman.** Mae ei ferch Miss Lizzie Davies yn dal i fyw yn y pentre. Y cyntaf ar y dde yn yr ail res o waelod y darlun yw **John Williams** o Gaernarfon oedd yn ffitar yn Iard Gilfach Ddu. Y nesaf ato ef yw **Brwynog Jones o Lanberis** Yr ail yn yr un rhes o'r chwith yw **Harri Thomas o Nant Peris.** Yn y rhes isaf, yr ail o'r chwith mae **Tom Jones o Gwm-y-Glo** a fu'n gweithio yn Swyddfa'r Herald Caernarfon. Yn eistedd yn y canol â'r baton yn ei law mae'r arweinydd, wrth gwrs, **Mr. Joseph Thomas,** a oedd yn Brifathro yn Ysgol Cwm-y-Glo. Rwyf yn adnabod amryw ohonynt o ran eu gweld ond wedi anghofio eu henwau. Gobeithio y bydd yr ychydig wybodaeth yma o ddefnydd a diddordeb i chwi. Daliwch ati, mae y papur **Eco'r Wyddfa** yn ddiddorol dros ben.

Yr eiddoch yn gywir,
William J. Jones.

**Diolch i chwi am y wybodaeth ychwanegol yma am rai o'r cyfeillion yn y llun. Tybed a gawsoch y cyfle i weld y rhestr gyflawn o'r enwau yn Rhifyn 6** *Eco'r Wyddfa?* Gol.

## GWERTHFAWROGIAD

**'Rydym fel bwrdd golygyddol yn dal i groesawu cyfraniadau tuag at gostau** *Eco'r Wyddfa.* **Fedrwn ni ddim cael 'gormod' o arian y dyddiau yma!**

**Ein diolchiadau diffuant i** *Mr John Morris (gynt o Ddeiniolen)* **sy'n awr yn Brifathro yng Nghlwyd am y rhodd o £l.**



Deëllir mai Cerbydau Arfonia fydd enw ar gefn cerbydau Eric Morris o hyn ymlaen. Diolch Eric am dipyn o Gymraeg, ac am sawl cymwynas i'r ardal. Hefyd mae John Trevor yn bwriadu galw ei fodurdy yn "Modurdy'r Hafod". Iawn te, beth am y modurdai eraill, siopau, Swyddfa Bost a phob masnachwr arall?

•

Mae Siop Gron Penisarwaun yn rhoi derbynneb swyddogol yn ôl cwsmeriaid: E & H. Green, Siop Gron, Penisarwaun. Diolch yn fawr.

## TYWYSOGES LLANBERIS



Mae Miss Gillian E. Wyn Williams am ddiolch yn **Eco'r Wyddfa** i gyfeillion am yrru anrhegion iddi ac i bawb am eu cefnogaeth a'u dymuniadau da tra bu'n llenwi'r swydd o Dywysoges Carnifal Llanberis.

## CYFEILIO AC ARWAIN

Y mae merch y diweddar Mr. John Morris Jones, sef Mrs. Enid Whiteside Thomas, Dolwar, yn dal i wasanaethu Eglwys Pontrythallt yn ffyddlon fel cyfeilydd ers 42 o flynyddoedd.

Dewiswyd Mrs. Thomas yn gyfeilydd ym Medi 1934. Y mae Mrs. Thomas yn arwain y Gân hefyd ers Gorffennaf 1952. Dewiswyd Mrs. Thomas yn flaenores ym Mawrth 1971.

### TEYRNGED

Aeth dwy a deugain mlynedd
Do heibio erbyn hyn,
A thalu teyrnged heddiw
Nid ydyw yn beth syn, –
Mae Mrs. Whiteside Thomas
Drwy y blynyddoedd maith –
Yn ddiwyd yn cyfeilio
A wir mae'n hoffi'r gwaith.

Pontrythallt deimlodd rywbeth
Drwy ei medrusrwydd hi,
Yr hen emynau'n cydio
Caed gwefr mae'n siwr gen i;
Ond nid cyfeilio'n unig
Wnaeth y fonesig lân
Ond codi canu hefyd,
Bydd dyblu ar y gân.

Yr oedd ei thad yn gerddor
Bu yntau wrth y llyw,
Yn ôl ei droed y cerddodd
Mae'n weithgar iawn, a byw –
Mae'n dal i wasanaethu
Ei rhod sy'n troi o hyd,
Mewn Ysgol Sul ac oedfa,
Pob bendith – gwyn ei byd.

Mary Lloyd Williams

## NEGES O GAERSWS

Y Garreg Wen,
Caersws,
Powys.

Annwyl Olygydd,

Gwelwch fy mod gryn bellter o Ddeiniolen lle'm ganwyd a'm magwyd, ond ni allaf lai nag anfon gair atoch i ddiolch i chwi am y papur newydd godidog, **Eco'r Wyddfa.** 'Rwyf yn cael cryn bleser o'i ddarllen bob mis, er na welais i fawr am Ddeinolen yn rhifyn mis Awst. Ta waeth.

'Rwyf yn credu y dylwn egluro sut y daeth yr Eco i fy llaw. 'Rwyf yn ei gael yn rhad ac am ddim, hyd yma, ond 'rwy'n bwriadu mynd i Ddinorwig i dalu amdano cyn diwedd yr haf, gan mai Alice ac Andrew Griffiths, Tan y Bwlch sydd yn ei anfon i mi, ac fe ddigwyddodd hyn yn rhyfedd iawn (gobeithio y gwna'r ddau faddau i mi am ddweud eu hanes oddi cartre). Fe gawsant anffawd i'w car yn y pentref yma beth amser yn ôl, ac roeddynt mewn cryn benbleth ond fe gofiodd un ohonynt fod 'Wil Clwt Bel' yn byw yng Nghaersws ac yma y daethant. Wrth wrando ar eu helbul a chael paned o de, a finna yn eu holi am bawb bron yn y pentref, fe soniwyd am **Eco'r Wyddfa** a byth er hynny, ac yn gwbl ddi-ddisgwyl maent yn ei anfon i mi bob mis. Fu 'rioed ddrwg na fu o ddaioni, mae gennych gefnogwyr ardderchog yn Tan y Bwlch fel y gwelwch.

Diolch i chwi unwaith eto a'ch cefnogwyr amdano a gobeithio y bydd i gylchrediad yr Eco 'fynd o nerth i nerth',

Yr eiddoch yn gywir,
W. Rowlands

# LLANRUG



**Dyma Lun o Fand Llanrug a Enillodd Y Wobr Gyntaf allan o 17 o Fandiau yng Nghorwen 1953**

Yn sefyll o'r chwith i'r dde:Robert John Jones (Llanrug); Robert Hughes (Porthaethwy); Bryn Jones (Llanrug); James Jones (Llanrug); Raymond Parry (Llanrug); Myrddin Holland (Llanberis); Haydyn Holland (Llanberis); David Williams (Caernarfon); Bob Tate (Caernarfon); W.T. Davies (Band Feistr); William Thomas (Llanberis); Robert John Jones (Llanrug); Derek Jones (Llanrug), sydd yn awr yn Fand Meistr ar Haig; John Williams (Llanrug); Jack Doggerite (Caernarfon); Harry Roberts (Llanrug); Robert J. Jones (Llanrug); Robert Pritchard (Llanrug).

Yn eistedd o'r chwith i'r dde: Robert John Owen (Llanrug, Ysg.); Glyn Hughes (Llanrug); Neville Thomas (Llanrug, Ysg. presennol y Band); Owen Jones (Llanrug); Meurig Parry (Llanrug); Stanley Jones (Llanrug); Trevor Jones (Llanrug); Hefin Roberts (Llanrug); Raymond Ll. Jones (Llanrug); Owen Williams (Llanrug).

Mae chwech wedi eu claddu; pedwar sydd yn aelodau yn y band yn awr.

### CANMLWYDDIANT

Eleni oedd blwyddyn dathlu canmlwyddiant ffurfio Undeb y Mamau yn y wlad. Bu cangen Llanrug yn cymryd rhan yn y dathliadau esgobaethol a chenedlaethol.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchwn Gwyneth Thomas, Gwenallt ar ei llwyddiant yn arholiadau Lefel A. Deallwn y bydd Gwyneth yn mynd i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a dymunwn iddi bob llwyddiant yn y dyfodol. Bu Melfyn Jones, 8 Rhos Rug yn llwyddiannus hefyd yn arholiadau'r C.S.E. Deallwn fod Melfyn eisoes wedi dechrau gyda'r cwmni trydan cenedlaethol. Bob llwyddiant iddo yntau.

### LLONGYFARCHION

Da ydyw cael llongyfarch Andrew Williams, Bryn Llan, a Ritchie Pierce Glanrafon ar eu llwyddiant yn ddiweddar yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru yng Nghaernarfon ac yn Sioe Môn.

### UNDEB Y MAMAU

Bu aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion ar daith drwy Arfon, Llŷn ac Eifionydd yn ddiweddar. Trefnwyd y daith gan y Rheithor a Mrs. Pierce, Glanrafon. Cafwyd noson fendigedig o braf a mwynhawyd pryd o fwyd yn y Plas Gwyn ym Mhentrefelin.

### YMWELD Â ST. GABRIEL, CWM-Y-GLO

Yn ddiweddar ymwelodd Cwmni Drama Ieuenctid Deoniaeth Arfon ag Eglwys Sant Gabriel, Cwm-y-glo, ac aeth aelodau Eglwys Sant Mihangel i ymuno gydag aelodau Sant Gabriel i weld a chlywed y perfformiad.

### NEWYDDION Y BAND

Ar ran y Band a'r pwyllgorau cyflwynodd Mr. Charles Jones wats i Mr. Tony Thomas sy'n ymadael o'r fro i ddechrau ar ei yrfa ar y môr.

### CYMANFA GANU

Cafwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Mawr yn ddiweddar. Mae diolchiadau'r Band yn mynd i Mr. Arwel Jones, Gwên-y-Wawr am arwain mor dda, a hefyd i bawb am eu rhoddion ac am eu presenoldeb.

### PRYSURDEB Y BAND

Bu'r Band yn brysur iawn dros y Gwyliau. Bu yn y Felinheli, yng Nghaernarfon (dros yr Aber) ac yn Nwyran, Sir Fôn. Gyda'r holl gyhoeddiadau a'r ffaith fod cynifer o bobl ifanc yn aelodau a bod pobl fel Mr. Owen Jones a Mr. Boylyn yn gofalu drosto mae dyfodol y Band yn argoeli'n dda.

### CYMORTHFA 1

Bydd Dafydd Wigley A.S. yn cynnal Cymorthfa yn y Sefydliad Coffa o 10.45 i 11.45 Medi 23. Ffoniwch Caernarfon 2076 i wneud trefniadau.

### CYMORTHFA 2

Bydd y Cynghorwyr Gwyn. O. Jones a Gwyndaf Jones yn y Sefydliad Coffa 0 10.30 a.m. hyd 12.00 Medi 18.

### PLAID CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gangen yn y Neuadd Goffa nos Wener, Awst 20fed gyda W.A.Jones yn y gadair. Trafodwyd pendefyniadau i'r Gynhadledd yn Aberystwyth ym mis Hydref. Bwriedir cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd yn ystod y gaeaf gan ddechrau gyda Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa ym mis Medi.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mrs. Jennifer Thomas a'i phlant Bryn a Iola, 34, Glanffynnon, ar ennill cystadleuthau prydferthwch babannod, a mam a phlentyn tra ar eu gwyliau yng Nghamp Butlins Bognor Regis. Sy'n profi bod merched a phlant hardda'r wlad yn ardal *Eco'r Wyddfa.*

### MARCIAU DEFAID

Yr oes yma, y marciau a welir amlaf ar ddefaid yr ardal yw llythyren o wahanol liwiau fel *13* neu *L* neu *H*, ond ar rai ffermydd mynyddig defnyddir yr un marciau a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau. Ceir esiampl dda o hyn ar rai o ffermydd Nant Peris. Ar un fferm gwelir marc fel llun pladur, un arall yn fath o fforch. Gwelir un arall ar ddull hen oriad telyn ac ar fferm arall 'croes' yw y marc. Mae'n debyg fod y marciau yma yn bod pan na fedrai mwyafrif o fugeiliaid yr ardal ddarllen, felly ni fyddai marc o lythyren yn dda i ddim iddynt i adnabod defaid y gwahanol ffermydd.


*E.M.W.*

# BETHEL YN COFIO'R HOGIA'

**Dim ond ychydig fisoedd a gymerodd Mr. R. Deiniol Williams, Cilgwyn, Bethel i gasglu digon o arian i dalu am garreg goffa i fechgyn Bethel a gollwyd yn yr ail ryfel byd.**

Ysgogwyd Mr. Williams i roi pethau ar droed i gael carreg goffa ym Methel, ar ôl ymweld â mynwentydd yn Normandy yn ddiweddar. Teimlai'n chwithig o feddwl fod cymaint yn cael ei wneud yn Normandy i goffau'r bechgyn ond 'doedd dim ym Methel yn cofnodi enwau'r bechgyn a laddwyd.

Sefydlwyd pwyllgor cofeb a phenderfynwyd cael carreg ithfaen De Affrica a'i gosod ar dir yr ysgol. Gobeithir y bydd yn barod erbyn dydd y Cad-oediad nesaf, Tachwedd 11eg. Fe gyst y garreg a'i gosod £450, ac eisoes mae £475 wedi ei gasglu ond mae Mr. Williams yn awyddus i bawb oedd yn adnabod y bechgyn gael cyfle i gyfrannu — fe fydd angen dipyn o arian i gynnal y gofeb i sicrhau y bydd yn gofeb deilwng i aberth y bechgyn, sef Robert Thomas Griffith, Gelli; Rowland John Hughes, Wern Bach; Hugh Parry Jones, Post Office Row; John Owen Morris, Fachell; Daniel Parry, Bethel; Samuel Roberts, Parc y Wern; Hugh Thomas, Saron. John Williams, Bryn Môr; Stanley Williams, Tŷ Capel.




## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein telerau rhesymol



# CWM-Y-GLO




*Parti Urdd Cwm-y-Glo, oddeutu 1935.*
*Arweinydd: (Y diweddar) Mr. Owen Morris Hughes, Llanrug.*
*Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.*

## MR. HUGH JONES

Gyda chwithdod mawr y clywsom am farwolaeth Mr. Hugh Jones, Meillionen, Penllyn. Roedd yn un o'r cymeriadau gwreiddiol, diddorol a diwylliedig hynny sydd wedi mynd mor brin rywsut erbyn hyn.

Chwarelwr oedd, a gydnabyddid gan ei gydweithwyr ymysg y mwyaf medrus ei grefft a chymeradwy ei gymeriad. Amhosibl cloriannu person mor amryddawn mewn ychydig linellau, ond cofiwn ei farn annibynnol a deallus ar faterion o bwys. Cofiwn ei gyfraniad a'i ddylanwad fel athro Ysgol Sul a'i sylwadau craff, perthnasol mewn dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr. Yn gerddor da, ymddiddorai mewn llên a drama yn ogystal. Yn anad dim, cofiwn ei hiwmor a'i ffraethineb gogleisiol.

Meddai ar gof eithriadol ynghyd â chariad dwfn a diffuant at ei fro; diddordeb di-bendraw yn ei hanes a'i hen gymeriadau, a dawn ddihafal i gyflwyno gwybodaeth neu stori.

Gedy fwlch yng nghalon ei ffrindiau, a'r gymdeithas, ond ym Meillionen mae'r gwacter mwyaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i'w briod, Mrs. Nannie Jones, i'w ferch a'i fab yng nghyfraith, Mr a Mrs Maurice Jones, i'w ddwy wyres, Dilys a Ruth y meddyliai gymaint ohonynt, ac i'w unig chwaer, Miss K. Jones, Llanrug.

*G. Chick*

## MERCHED Y WAWR

Ym Mehefin bu'r gangen ar daith ddirgel a drefnwyd eleni gan Mrs Sylvia Williams, Llwyncoed, Miss Mair Rowlands, Bodafon, a Mrs Lowri Prys Williams, Godre'r Coed. Ymwelwyd ag Amgueddfa Forwrol a'r llong fach gysylltiedig ym Mhorthmadog. Diddorol oedd dychmygu bywyd y morwyr fu unwaith yn cysgu yn y bynciau cul. Ymlaen i adfeilion Abaty Cymer a rhyfeddu fel yr erys rhyw dawelwch oesol, sanctaidd mewn lleoedd o'r fath, er fod carafanau wedi ymgripio'n bur agos erbyn hyn. Te yn Nolgellau, yna i Lanuwchllyn i weld cartrefi, cofgolofnau a mannau gorffwys teulu'r Edwardiaid, teulu yr ydym fel Cymry mor ddyledus iddynt. Siwrnai drwy'r wlad i Fetws y Coed, a swper ardderchog yng Ngwesty'r Waterloo. Diolch, genod, am ddiwrnod bendigedig.

## TRIP MERCHED Y WAWR I'R HENOED

Ar Orffennaf 19 tro'r dinasyddion hyn i gael trip oedd hi. Aed trwy Lanrwst i Landudno, a chyfle yno i gael gwynt y môr a siopio. I Gonwy am de, ac adref trwy Ddolgarrog a Threfriw, a'r dyffryn hardd ar ei orau ym mhelydrau'r haul. Egwyl am paned ym Metws y Coed, a phawb yn troi adref wedi mwynhau diwrnod hapus. Diolchwyd i Ferched y Wawr ar ran y pensiynwyr gan Mr. Llew Hughes, Hyfrydle a Mr. Gwilym Evans, Terrace.

Bydd tymor 76-77 yn dechrau ar Fedi 15ed. Croeso cynnes i'r ffyddloniaid ac i aelodau newydd.

## LLONGYFARCHIADAU

Ganed merch i Mr a Mrs Cledwyn Jones, 4 Bryn Crwn, mab i Mr a Mrs Gareth Jones, 21 Dolafon, a mab i Mr a Mrs Elfed Roberts, 7 Craig y Don. Croeso cynnes i'n plith, Debbie, Garry a Mark.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mr. Moult, Uwchlaw'r Ffynnon, ar farwolaeth ei briod hoff. Daethant i gartrefu yma ar eu hymddeoliad rai blynyddoedd yn ôl.

## GWAELEDD

Bu amryw o'r pentref mewn ysbytai'n ddiweddar, — Miss Olwen Parry Jones, Gwylfa; Mr. Edgar Williams, Fron Gader; Mrs. Elena Evans, Pen Bwlch; Mr a Mrs David Morris, Becws; Mr. Hugh Jones, Seiont House a Mr. Edwin Thomas, Craig y Don. Ein cofion atoch a'n dymuniadau gorau i chwi i gyd.

## GWOBR AM FRODWAITH

Llongyfarchiadau i Nan Rowlands 4 Dôl Afon am ennill ail wobr am frodwaith yn Adran y Methedig yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon.

## YMWELD A'R EIDAL

Bu Susan Owen, Talgwynedd, a Ieuan Wyn Rowlands, Talafon, ar ymweliad â'r Eidal yn ddiweddar. Deallwn hefyd fod John Chick wedi bod gyda hwy. Trefnwyd y trip gan Ysgol Brynrefail.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Melfyn Roberts, Bod Gwynedd ac Alan Wyn Jones, Bod Elan ar fynd yn llwyddiannus drwy arholiadau y C.S.E., ac i Delyth Williams, Nant Forgan ar basio arholiadau'r Lefel O.

## CROESO

Estynnwn ein croeso i Miss E. Morris sydd yn aros ym Mron Eryri ar ei dychweliad o'r Yswistir am ysbaid.

Croesawn hefyd Mr. Elfed Hughes, mab Mrs Olwen Hughes, a'r diweddar Mr. Morgan J. Hughes, Alexandra House, sydd ar ei wyliau yn ei ardal enedigol o Seland Newydd. Cychwynnodd ei yrfa fel Peiriannydd Llongau yn Glasgow, ac yna ymfudodd i Seland Newydd 17 o flynyddoedd yn ôl. Ymgartrefodd yn Auckland, lle mae'n awr yn byw gyda'i wraig a'i fab ifanc. Mae ei Gymraeg mor lan ag oedd pan ymadawodd â'r ardal, ac mae'n cael pleser mawr o ddarllen rhifynnau o Eco'r Wyddfa. Edrycha ymlaen am y rhifyn nesaf.

# O NANT PERIS

## DIOLCH

Dymuna Mrs. Janet S. Jones, Elidir a Mrs. Prydwen Pritchard Llys Awel ddiolch i bawb am eu dymuniadau da a'u caredigrwydd yn ystod eu arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da gweld y ddwy o gwmpas unwaith eto ac wedi gwella yn dda.

## PRIODAS ARIAN

Llongyfarchiadau a dymuniadau goreu i Mr. a Mrs. Arthur Williams, Pennant ar ddathlu eu Priodas Arian ar Awst 3. Dymunwn iddynt bob bendith a llwyddiant i'r dyfodol.

## ENNILL GRADD

Llongyfarchiadau i Eilian Williams, Pennant ar ennill y radd o L.R.S.C. yn y Coleg yng Nghaerdydd. Mae Eilian ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan yn Llanberis. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

## LLWYDDIANT

Da gennym ddeall am lwyddiant Emyr S. Jones, Gwynant yn ei arholiadau. Mae Emyr yn dilyn cwrs ar Buredd yr Amgylchedd ym Mhrifysgol Bryste ar hyn o bryd.

## ARHOLIADAU LEFEL O

Llongyfarchiadau i Hefina Pritchard ac Anne Caroline Williams am eu llwyddiant yn arholiadau Lefel O. Deallwn y bydd Anne yn mynd ymlaen â'i haddysg yng Ngholeg Technegol Llandrillo yn Rhos, a dymunwn iddi bob llwyddiant yn y dyfodol.

## CROESO

Croeso mawr i Gwen i'n plith a llongyfarchion i Mr. a Mrs. Tecwyn Griffiths, Glanrafon ar gael chwaer i Emma. Deallwn fod Gwen wedi creu record am bwysau baban yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor gan ei bod yn pwyso 14 pwys ar ei geni.


## LLWYDDIANT MEWN SIOE

Yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru yng Nghaernarfon enillodd Mr. Meirion Wyn Pritchard, Tŷ Isa bencampwriaeth yn adran y Defaid. Cafodd hefyd wobr gyntaf a thair ail wobr. Llongyfarchiadau iddo yntau ar ei lwyddiant.

## FFARWELIO

Ar ôl treulio dros hanner canrif yn y Nant ymadawodd Mrs. Mary W. Humphreys â'r ardal i fyw yn Llanberis. Bydd colled ar ei hôl yn Rehoboth, a chwith gweld ei lle'n wag ar y Sul. Dymunwn iddi bob hapusrwydd yn ei chartref newydd.


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

**'Roedd ardal troed yr Wyddfa yn enwog am ei Thylwyth Teg ac nid oes ardal yng Nghymru a mwy o hanesion amdanynt. Hyd at ganol y ganrif ddiwethaf ni feiddiai rhieni Cwm Brwynog adael i'w plant fynd allan i chwarae ar ddiwrnodiau niwlog rhag ofn i'r Tylwyth Teg eu hudo i'w gwlad o dan Llyn Dwythwch a Moel Eilio. Eid i'w gwlad drwy ogof o dan Llyn Dwythwch a dywedir ei bod yn orlawn o drysorau.**

Byddai'r Tylwyth Teg yn rhannu eu harian weithiau i bobl haeddiannol. Tua dau gan mlynedd yn ôl câi merch y Cwmglas, Nant Peris arian gan y Tylwyth Teg yn y Cwmglas Mawr. Y cwbl a wnai fyddai mynd i le arbennig yno ar fore niwlog, tywyll gyda jygiad o lefrith a thywel glân. Gadewai hwy ar garreg a phan ddychwelai atynt byddai'r jwg yn wag a deuswllt, hanner coron neu fwy weithiau wrth ymyl.

### CADEIRIAU AUR

Flynyddoedd maith yn ôl, safai ffermdy o'r enw Corlannau ger y Rhiwlas ar ffin ardal *Yr Eco*. Yno trigai hen ŵr a gwraig a'u merch ifanc. 'Roedd yn hogan dda i'w rhieni a gwnai lawer drostynt yn eu henaint. Pan na fyddai'n gweithio ar y fferm byddai'n gweu fel na fyddai ei dwylo byth yn segur. Daeth hyn i sylw'r Tylwyth Teg a phenderfynansant ei gwobrwyo drwy roi un o'u cadeiriau aur iddi. Pan yn gwylio'r defaid ar y mynydd drannoeth gwelodd yr hogan y gadair yn sgleinio o bell. Sylweddolodd mai rhodd gan y Tylwyth Teg ydoedd a bod rhaid iddi ei chario i ffwrdd ar unwaith. Gan ei bod yn gadair o aur pur 'roedd yn llawer rhy drwm iddi ei symud, felly clymodd un pen i edafedd hosan yr oedd yn ei gweu wrthi a chychwyn adref am gymorth. Yn anffodus gorffennodd yr edafedd cyn cyrraedd Corlannau felly rhoddodd yr hogan garreg fawr ar y pen a rhedodd at y tŷ. Daeth ei thad yn ei ôl gyda hi ond er chwilio am oriau ni chawsant hanes o'r edafedd na'r gadair aur. Dywed traddodiad yr ymddengys eto i rywun gweithgar — ond rhaid ei chipio'n syth y tro nesaf!

### DIREIDI

'Roedd y Tylwyth Teg yn llawn direidi hefyd. Un tro 'roedd un o hogiau'r Hafoty, Llanberis yn dod adref o ffair Beddgelert dros Fwlch Maesgwm pan welodd dyrfa fawr o'r Tylwyth Teg yn canu a dawnsio. Eisteddodd i lawr i edrych arnynt ond syrthiodd i gysgu. Tra cysgai, sleifiodd y Tylwyth Teg ato a'i glymu fel na fedrai symud na llaw na throed ac yna'i guddio â chynfas wawn. 'Roedd teulu'r 'Foty yn ei ddisgwyl adref yn gynnar o'r ffair a phan aeth yn hwyr aethant cyn belled â'r Rhyd Ddu i chwilio amdano. Yno clywsant iddo gychwyn o Feddgelert gyda dyn o'r Betws Garmon ond dywedodd hwnnw iddynt wahanu wrth yr adwy sy'n arwain at y Bwlch. Chwiliwyd y Bwlch yn fanwl drwy'r nos a thrannoeth, ond yn gwbl ofer. Y noson wedyn daeth y Tylwyth Teg i ryddhau'r charcharor ond ni fedrai gofio lle'r oedd. Cafodd y Tylwyth Teg filoedd o hwyl wrth ei weld yn crwydro o gwmpas ac yn sylweddoli, pan wawriodd, ei fod yng ngolwg ei gartref drwy'r adeg.

### ATEBION I MARCIAU LLAWN

1. Wyau a physgod.
2. Iau dafad, blawd ceirch a llysiau.
3. 28.4.
4. Fitamin B.
5. Ei frwsio â finegr neu ei guro â phin rowlio.

# PENISARWAUN

### Y CHWIORYDD

Dydd Sadwrn, Awst 21ain, treuliodd Cymdeithas y Chwiorydd ddiwrnod hapus iawn ar eu gwibdaith i'r Bermo.

Cafwyd sgwrs ddiddorol ac amserol mewn cyfarfod Nos Fercher gan Mr. J.W. Jones Pontrhythallt, pan roddodd fraslun o'i hanes yn yr Aifft amser rhyfel. Amserol oedd ei sgwrs oherwydd y sychder mawr sy'n crino'r caeau i gyd; yn yr Aifft yr oedd ef yn cael peint o ddŵr y dydd at ymolchi ac ati. Soniodd hefyd am y ffynnon nodedig nepell o Gapel Glasgoed, sef Ffynnon Cegin Arthur.

### CLWB YR HEULWEN

Tipyn o frethyn cartref a gaed dydd Mercher. Bydd y cyfarfod nesaf Medi 28ain.

### LLYS ONNEN, ABERGELE

Mae dwy chwaer o'r pentref yn mwynhau pythefnos o wyliau yn Llys Onnen, Abergele, cartref i'r deillion. Mrs. Katie Jones, Rhos Wian yw un a Mrs. Williams Tyddyn Waun; dathlodd Mrs. Williams ei phenblwydd yn bedair ugain a phedair yn Llys Onnen.

### ATHRAWES NEWYDD

Ailagorir yr ysgolion ar y 7fed o Fedi ac ym Mhenisarwaun bydd athrawes newydd yn dechrau yn lle Mrs. R.H. Owen a roddodd flynyddoedd o wasanaeth clodwiw i'r ysgol. Mrs. Iola Grisedale yw'r athrawes newydd, mae hi'n ferch i Mr. Ellis Hughes prifathro Ysgol Maesincla a Mrs. P. Hughes o Lanberis.

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Aeth aelodau'r Sefydliad ar wibdaith o gwmpas Ynys Môn nos Wener, Gorffennaf 16eg. Cafwyd noson ddifyr iawn ac aros yn y Motel yng Ngaerwen ar y ffordd adref i gael lluniaeth. Ni fu cyfarfod ym mis Awst ond byddwn yn ail ddechrau'r tymor nos Fawrth **Medi 28**. Croeso cynnes i aelodau newydd.

O

### PRIODAS

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 31 yng nghapel y Glasgoed, priodwyd Ella Wyn Williams unig ferch Mr. a Mrs. G.R. Williams 'Llys Myfyr' a Gareth Morgan mab hynaf Mr. a Mrs. J. Morgan Maes Incla, Caernarfon.

Gwasanaethwyd gan y Parch George Brewer Y Felinheli a Mr. Bryngwyn Griffith oedd yr organydd. Rhoddwyd y briodasferch i'w gwr gan ei thad a gwasanaethwyd arni gan Miss Anwen Jones (cyfnither) Misses Sharon a Sian Jones (cyfnitherod y priodfab) a Dylan Edwin Jones (cefnder). Y gwas oedd Mr. Maldwyn Williams (brawd y briodferch) a'r ystlyswyr Mr. Leslie Jones a Mr. Owen Morgan. Treuliwyd y melrawd yn Bournemouth.



# Colofn y DYSGWR

Mae llawer o bobl wedi dod yn ôl o'u gŵyliau. Aeth y rhai oedd yn hoffi mynyddoedd i'r **Swistir, Ffrainc, Gogledd yr Eidal** neu **Awstria.** Bu eraill yn torheulo ar draethau poeth **Sbaen, yr Eidal, Ffrainc, Gwlad Groeg** ac **Ynysoedd Môr y Canoldir.** Bu eraill yn gwersylla mewn pebyll neu garafanau a bu'r rhai cyfoethog yn aros mewn gwestai.

Sut hwyl gawsoch chi o a i f?

Dyma saith arall o **ff** i **ll**.

(ff) Mae ff... yn drewi.
(g) Mae ... yn hel cnau.
(ng) Mae fy ... yn bwyta pob peth.
(h) Mae ... yn hoffi tywydd gwlyb.
(i) Mae ... yn dodwy wy.
(l) Mae dau ... bach gan yfuwch
(ll) Mae'r gath yn rhedeg ar ôl y ...


**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL



**E& E.M.GREEN**

**SIOP GRON**

PENISARWAUN

**Nwyddau Groser**
**Ffrwythau a Llysiau Ffres**

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

# OLION HEN OLWYNION

*gan R.W. Rhosbodrual*

**Gair o eiddo'i Golygydd yn yr ail rifyn o *Eco'r Wyddfa* a barodd imi feddwl mai fy nyletswydd oedd sgrifennu atgofion am rai o'r bysus bach fu'n gwasanaethu ardal Nant y Wyddfa dros y chwarter cyntaf o'r ganrif yma.**

Does ond dau neu dri a fu'n gweithio ar fysus D.M. Llanrug, yn fyw y dyddiau hyn, a chan mai Jac, fy mrawd, a minnau oedd yr ieuengaf ohonynt, mae gennym doreth o atgofion am hynt a helynt y fentar i wasanaethu y cyhoedd o Gaernarfon i Lanberis.

### Y PERCHENNOG

Cofiaf i'r perchennog, David Morgan Pritchard – mab Post Brynrefail yn ei ieuenctid, sôn am y cychwyn pan ddaeth yn bostfeist Llanrug, ar ôl priodi merch y Post. Bu ef yn gynghorwr a chymwynaswr i do ar ôl to o bentrefwyr hyd ddiwedd ei oes ym 1937. Yr oedd yn fawr ei barch, er nad yn grefyddwr selog, ac yn aeddfed ei farn ar lawer o bynciau dyrys y dyddiau hynny.

### THE MIGHTY ATOM

Cychwynnodd D.M. Pritchard redeg cerbydau i gario teithwyr o Frynrefail yn gynnar yn y ganrif mewn hen Mercedes-Benz. Tyst o hynny yw mai hen siarabang lwyd agored, gyda seddau traws, – hen Ford Model T, oedd yn dwyn yr enw *The Mighty Atom* a restrwyd ymysg y cerbydau cyntaf yn y sir, o dan rif CC4. Cofiaf ei sgerbwd mewn hen gwt allan yn nechrau'r tri degau a'r rhif arni o hyd. Os gwn i beth ddaeth ohoni pan chwalwyd y lle dro'n ôl? Mi fu *Mighty Atom yr Ail* hefyd – Chevrolet neu ShevBach fel y gelwid hi'n ddiweddarach. Un goch â tho cynfas du oedd hi. Roedd y to, tu ôl, uwchben y sedd gefn, yn un caled ac oddi ar hwnnw y byddai'r to cynfas du yn cael ei daenu dros asennau dur hyd at ben y sgrîn wynt, lle sicrheid ef gan tyrn styds. Anodd fyddai ei gael i ddal dŵr fel potal, bob amser, er iddo gael ei glytio o dro i dro. Mae cof gen i am un tro, a hi'n bwrw'n egar, i wraig o Frynrefail agor ei hambarel yn y bws am fod y glaw yn diferu ar ei het. Dro arall roedd rhyw grydd, a wisgai het galed yn eistedd yn y sedd gefn. Dowciai'r hen Chev Bach wrth groesi Cors Llwyncoed gan mai *short wheelbase* oedd iddi ac yn cario 14 o deithwyr yn gyfreithiol fanwl. Yn un o'r cyrchlamau hyn trawodd y crydd ar y sedd gefn, ei het yn y to nes oedd yn dynn dros ei glustiau a'r gyrrwr, Alun Penrallt, yn glanna chwerthin â'i lygad ar y drych uwch ei ben. Treuliais Sadyrnau difyr yng nghwmni Alun, oedd yn ffitar yn Iard y Chwarel wrth ei waith beunyddiol, ond a hoffai yrru bws dros dro. Ni welid ef byth heb sigaret ar ei wefus a byddai yn hael iawn hefo ffag i hogyn ysgol, oedd yn bwrw'i brentisiaeth ym myd y mwg.

Lawer tro y cefais edliw gan fy athro yn Ysgol Brynrefail, na ddown byth i ben da wrth ganlyn hen hogia'r motors 'na, gan y byddai fy ngwaith yn siwr o ddioddef wrth ddilyn eu cwmpeini. Ond gofalai fy mam fy mod bob amser yn talu sylw i'm tasgau ar Nos Wener os oeddwn am fynd i weithio ar y bws Ddydd Sadwrn. Ni fu edifar gennyf, onid dyma'r ffordd i ddod i 'nabod pobol, a chael profiad o'r natur ddynol? Prin oedd arian poced i lanc yn ei arddegau, y pryd hwnnw a dyna'r unig ffordd i ennill ychydig ar gyfer dyddiau ysgol a choleg wedi hynny. Bu D.M. Pritchard yn gymwynaswr hael i fachgen oedd â'i lygad ar sicrhau manteision addysg. Cymerai ddiddordeb bob amser yn yr hyn y bwriadwn ei wneud, ac fel Cynghorydd Sir yn y tri degau, gwnaeth ymdrech lew i sicrhau swydd imi, ar ôl dyddiau coleg, mewn cyfnod o ddiweithdra dybryd heb *dole* o gwbl.

### TROEON DYRYS

Cof da gennyf am lawer tro dyrys yng ngwasanaeth y bysus. Pan ddaeth yn orfodol i bob gyrrwr a thocynnwr gael ei drwyddedu gan y Weinyddiaeth, bu'n rhaid gwneud cais i'r *Traffic Commissioners* am fathodyn a thalu coron amdano. Gofalodd D. M. Pritchard fod pawb a wasanaethai iddo, yn cael ei drwydded ond dylai pawb ei adnewyddu ei hun. Gwisgai tocynnwr fathodyn gwyrdd a gwyn a'r gyrrwr un coch a gwyn, bob un yn dwyn ei rif swyddogol. Byddai'n rhaid i'r gyrrwr fynd trwy brawf dan Swyddog o'r Weinyddiaeth Drafnidiaeth. Cafwyd llawer o hwyl pan wrthodai'r swyddog gydnabod safonau gyrru ambell un o'r hen griw yr haerid iddynt anghofio mwy na ddysgodd y sbrigyn swyddog erioed.

### YR HEIWE COD

Rhaid oedd dilyn yr Heiwe Cod o hynny ymlaen a pharchu rheolau y ffordd fawr.


Roedd i yrrwr bws ei broblemau yn aml iawn, yn enwedig pan ddigwyddai rhyw anffawd neu'i gilydd ar dorfeydd ffyrdd culion y wlad. Nid oedd gan y bysus bach unrhyw drefn bendant i'w dilyn er cynnal a chadw eu cerbydau mewn cyflwr safonol er diogelwch y cyhoedd. Rhyw hap a digwydd oedd pob sylw a gâi y cerbyd, yn ôl yr argyfwng yr oedd ynddo ar y pryd. Os digwyddai i yrrwr gael crafiad i ystlys y bws neu blygu yr adain flaen, yna byddai yn rhaid rhoi adroddiad manwl i'r cwmni siwrin. Gwaith tocynnwr, fel ysgrifennydd y bws fyddai nodi y manylion a chyfnewid drecsiwn hefo'r gyrrwr arall yn yr anffawd.

*I barhau yn y rhifyn nesaf.*


# Y RAS



*R. Jones ar y chwith, enillydd d[...] 1 awr 51 munud 9 eiliad o Lan[...] enillydd dosbarth y merched yn c[...] 40 munud 15 eiliad. Go dda genod!*



Ydach chi'n ei nabod o? Ia, John Roberts, Prif Warden y Parc Cenedlaethol yn rhedeg ar ei 'hôm grownd'. Dyma'r Eco'n profi i bawb fod John yn gallu herio'r Wyddfa cystal â neb, a hynny heb ei 'landrover'. Daeth yn ôl mewn 1 awr 38 mun 53 eiliad.



**I FYNY**

*Dipyn o wahaniaeth yn osgo Ge[...] Chwarae teg i Geraint daeth yn [...] amser o 1 awr 45 munud 14 eiliad.*

*Bodlondeb,*
*Llanrug,*
*Ger Caernarfon..*

*Annwyl Mr. Griffith,*

*Cynhwysaf yma fy ymdrech o farddoniaeth fel fy nghyfraniad i 'Llannerch y Llenor' ac hefyd "Eco'r Wyddfa, gan ddymuno hir oes i'r papur ac i'r syniadau gwreiddiol sydd wedi dirwyn allan ohono.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Gerwyn Llewelyn Jones.*

**MARWOLAETH**

**Pasiodd y pasiant penddu**
**Heibio i'n tŷ ni,**
**A ninnau'n blant heb sylwi**
**Y boen oedd arni hi.**

**Galwai mam am osteg,**
**I ddangos parch y byw.**
**A ninnau'n dal i chwarae**
**Heb unrhyw glem o glyw.**

**Daeth dydd y tyfu i fyny,**
**A'r pasiant yn realaeth byw.**
**Mor ddi-hid yw plentyndod.**
**O! na allwn felly fyw.**

*Gerwyn Llewelyn Jones.*

# Llanne[...]
# Y Lle[...]

**gan SELWYN [...]**

Wnes i 'rioed ddychmygu y deuai gymaint o ymateb i'r gerdd "Oedfa'r Bore"; a phleser mawr oedd sylweddoli fod cymaint ohonoch wedi ymddiddori yn yr arbrawf.

Deallaf fod amryw yn dangos diddordeb yn y syniad o sefydlu 'Steddfod Eco'r Wyddfa hefyd.

Wel ardderchog – peidiwch â bod yn swil – anfon-




arth genethod iau mewn amser o
s i Clogwyn ac yn ôl. B. Hogge
lhau'r swirnai gyfan mewn 1 awr

*Lluniau trwy ganiatâd Elwyn Davies, Llanberis.*



I LAWR

nt Jones o Lanberis yn y ddau lun.
yn nosbarth bechgyn iau mewn



J.T.Williams o Lanberis ar ei ffordd i ennill yn nosbarth y bechgyn iau mewn 1 awr 45 mun. 5 eiliad. Ysgwn i faint fyddai ei amser pe bai heb redeg ac ennill y ras filltir ym mabolgampau Llanberis y noson cynt!

# Tewch a D'eud

## Y CAR GWYLLT

*Hugh R Jones, Llanberis.*

**Mae hanes diddorol i'r car gwyllt a oedd yn cludo gweithwyr Môn ac Arfon i Chwarel Dinorwic yn y dyddiau cynnar, siwrnai o saith milltir o'r Felinheli neu Penscoins i'r Gilfach Ddu hyd nes daeth y trên chwarel yn 1895.**

Dywedir fod trigain neu fwy o'r ceir ac enw wedi ei roi ar bob un ohonynt. Mae un yn aros heb enw yn yr Amgueddfa chwareli Gogledd Cymru yn Llanberis (sydd ar agor i'r cyhoedd ac a ddenodd dros 65 o filoedd o ymwelwyr yr haf diwethaf). Yr oedd hwn yn cael ei ddefnyddio gan y 'fforddorliwrs' hyd nes caewyd rheilffordd Padarn 'yn 1961.

Mae'r alarnad i'r car gwyllt wedi cael eu cadw'n ofalus gan Mr. & Mrs. Robert Pritchard, Penisarwaun a buont yn garedig iawn yn rhoi eu benthyg i'r Amgueddfa.
**Pwy yw'r awdwr?**

Dywedir fod un o'r ceir wedi mynd oddi ar y cledrau ac i lawr i ddyfnderoedd Llyn Padarn a boddi'r criw o wyth. Dyna oedd y nifer ar bob car.

**Diddorol fyddai clywed rhyw hanes arall am y car gwyllt.**

### GALARNAD Y CAR GWYLLT

Mae popeth bron yn newydd
Ar fynydd ac ar fôr
Tra'r hen yn unig erys
Mewn hanes yn ystôr
Yn dilyn dydd Galarnad
'My Lord' am ride and drive
Daeth diwedd car y gweithwyr
Yn eighteen ninety five.

Yn iach gerbydau gwylltion
I'ch cicio ac i'ch troi
Mae'ch enwau trwy'r alarnad
Mewn iard wedi'u rhoi
Ffarwel i 'Garibaldi'
Eryri a'r Pry Llwyd
Y 'Gaseg' gyda'r 'Ebol'
Fu'n mynd heb fol na bwyd.

Mae 'Vivian', 'George' a Gladstone
A 'Livingstone' a 'Stag'
A 'Picton' efo 'Nelson'
A 'Samson' i gael sac.
Caiff 'Jennie bach' a 'Habley'
O'r neilltu fynd am byth
Ffarwel run ffordd i 'Snowdon'
'Victoria','Llew' a 'Smith'.

Ta, Ta, 'rhen 'Siân' a 'Peris'
'Tom King' a 'Marquis Mawr'
Gan uno 'Albert', 'Aston'
A 'Wellington' i lawr
Tra 'Prince Llewelyn' yntau
A'r llanciau ym mhob llun
Fe gwympir rhag yr ager
I'r gwter bob yn un.

Wrth ildio cicio'r 'Cacwn'
Ffarweliwn heb un ffrae
Tra rhown i fyny'r 'Vaynol'
Ar goll i Chwarel Cae.
A thithau yr hen 'Fules'
Hudolen plant y plwy
Maith enw i'w anwylo
Ffarwel i'th gicio mwy.

Er cof am 'Fôn' a 'Timbar'
A 'Blondin' gyda blas
'Meredydd,' 'Bright' a 'Storely'
A 'Foli' car y Bass
'Dinorwic' a 'Pandora'
A'r 'Wylfa' ddaw i lawr,
'Caradog', 'Madog', 'Menai'
Ta-ta i'r fintai fawr.

Yn olaf rhaid ffarwelio
Â'r hen 'falwoden lwyd'
Ni welwyd mewn bodolaeth
Ei bath am gario bwyd
Os oes rhyw enw arall,
Heb gael ei dwyn ar go
Wel rhowch y bai i ddisgyn
Ar hogai Cwm-y-Glo.

Darfyddai 'Panorama'
A'r yrfa gyda hyn
Ni welir mwy ei chysgod
Le hynod yn y llyn
Gan fynd â'u pennau i waered
A'u traed wrth draed yn cwrdd
Tra'r oll fel dwbwl fintai
Yn ffoi o chwith i ffwrdd.

Ffarwel i'r gwyllt gerbydion
A'u moddion yma mwy
A chroeso i'r gerbydes
Ar ôl eu hanes hwy
Fe fforddwyd trên gyfforddus
I'r llu llafurus llon
Caiff mo ch hen fawnog Gymru
First seats o hyd yn hon.

Hwrê i drên y gweithwyr
Ac i'r boneddwr mad
A mynnodd er ein mwyniant
Teilyngdod glodydd gwlad.
Fel hyn mae'r byd a'i bethau
Yn rhydd fyrhau ein hynt
Cant fyned ar olwynion
I'r pen yn gynt a chynt.



*Dyma i chi lun diddorol. Wyth chwarelwr yn teithio ar y car gwyllt. Eiddo Mr. G.O. Edwards, Llanberis yw'r llun, ac mae ganddo feddwl mawr ohono. Ei dad yw un o'r teithwyr. Ŵyr rhywun pwy ydi'r lleill?*

ch
or
IFFITH



wch air i mewn i ni gael gwybod pwy sydd yn gefnogol.

Cofiwch anfon cerddi – ac mae croeso i chwithau blant ysgolion cynradd y cylch ac yn arbennig chi ddisgyblion Ysgol Brynrefail anfon eich gwaith creadigol i'r Llanerch.

Hwyl fawr i chi dros y gwyliau.

Selwyn.

### FY ARWR

A glywsoch am fy arwr
Nas gwnaed o gig a gwaed
Sy'n gweld yn llawer pellach
A sioncach ar ei draed.

Daw acw bob nos difia
Yn brydlon tua saith
A dyna ddiwedd pendant
Ar unrhyw fath o waith.


Fe gafodd ddamwain erchyll
Dioddefodd aml gur
Ond allan o'r holl lanast
Daeth y dyn a wnaed o ddur.

Fe gefais ddychryn unwaith
Ei weld a'i goes yn hanner
Ond doedd dim angen meddyg
Dim ond can oel a sbaner.

Pwy tybed yw'r cawr addfwyn
Sy'n asgwrn cefn i'r gwan?
Rwy'n siwr eich bod yn nabod
Y 'Six Million Dollar Man".

R.L. Jones,
Caernarfon.

# DEINIOLEN




*Mae rhyw ugain o newidiadau amlwg yn y Deiniolen* cyfoes *o'i gymharu â'r llun uchod o'r pentref pan yn dwyn yr enw Ebenezer.*

*Bu cyfnod pan oedd y pentref yn cyd-ddwyn y ddau enw Ebenezer a Deiniolen, ond ar Orffennaf 31ain 1976 penderfynodd Cyngor Plwyf Llanddeiniolen fabwysiadu Deiniolen fel enw swyddogol ar y pentref.*

*"Llun trwy garedigrwydd Mrs. M. Morris, Bryn Cadnant, Caernarfon."*

### CLWB YR HENOED

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Clwb am eleni ar dydd Mawrth Awst 24ain, dan lywyddiaeth Mrs. Marren, Plas Eryr. Cydymdeimlwyd â'r chwiorydd canlynol yn eu profedigaethau: Mrs. R. Lloyd Jones, Tai Cynfi, Mrs. Sara Roberts Hafod Oleu, Mrs. M. Powell, Tai'r Glyn, Mrs. Maggie Williams, Tai Gwyrfai, Mrs. Myfanwy Jones, Pentre Helen, Mrs. Maggie Morris, Tai Marian, a dymunwyd adferiad buan o'u gwaeledd i Mrs. Andrews, Clwt-y-Bont a Mrs. Ciss Williams, Pentre Helen.

Diolchwyd i aelodau Seindorf Deiniolen am eu caredigrwydd yn cyflwyno i'r Clwb gyfanswm y casgliad dderbyniwyd mewn Gymanfa Ganu drefnwyd gan y Seindorf yn ystod Gorffennaf; gwerthfawrogwyd hefyd y cyfraniad blynyddol dderbynir gan y Clwb oddi wrth blant a staff Ysgol Gwaun Gynfi.

Etholwyd dwy aelod o'r Clwb i fynd ar wyliau i Rhyl yn ystod Medi ar wahoddiad Pwyllgor Lles Henoed Arfon.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Clwb p'nawn dydd Mawrth Medi 14eg, 1976.

### CYNGOR EGLWYSI'R PENTREF

Yn unol â'n hen arferiad bu aelodau Eglwysi'r pentref yn cydaddoli yn ystod mis Awst, a chafwyd croeso cynnes wrth ymweld â'r gwahanol gapeli.

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Yn ein cyfarfod ym Mehefin cafodd y gangen groeso arbennig gan ei "link" sef Penisarwaun. Rhoddodd Mrs. Smalley hanes diddorol a thrwyadl o'i thaith i'r A.G.M. yn Llundain. Bydd y gangen yn ailagor Nos Lun Medi 13 a'r gŵr gwadd fydd Mr. Richard Jones, Abergele, cyn ysgolfeistr, Ysgol Gwaun Gynfi. Dechreuir dosbarth Crosio hefyd yn ystod Medi.

### GWERTHFAWROGIAD

Dymuna Mrs. M.G. Williams 4, Tai Gweledfa, Deiniolen ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a'r llu cardiau dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Diolch yn fawr.



Darlun yw'r uchod o Mr. Thomas Williams, Pentre Helen, un o 'gymeriadau' ffraeth a hoffus y pentref, sydd ymhlith y mwyaf ffyddlon ei wasanaeth i Seindorf Arian Deiniolen — Tomos sy'n gofalu am y 'Cwt Band' ers blynyddoedd lawer.

Bydd rhai o'i hen gydweithwyr yn Chwarel Dinorwig yn gwybod am lawer tro trwstan yn ei hanes; megis yr achlysur cofiadwy ar yr awr ginio honno pan y'i croesawyd i adrodd mewn Cyfarfod Ymadawol. Cynnwys potel Brylcreem wedi ei iro ar ei wallt — gwres tân y caban a phwysigrwydd yr amgylchiad yn peri i'r 'Brylcreem' doddi a llifo lawr ei ruddiau ymhell cyn cyrraedd llinell olaf yr adroddiad! Er gwaethaf ei waeledd diweddar da gweld nad yw'r 'Double B' yn ddigon mawr i guddio ei gorpws sylweddol.

### GIRL GUIDES

Aeth y "Guides" i Butlins ym Mhwllheli, ddydd Sadwrn 3ydd Gorffennaf. Cafwyd diwrnod da iawn a phawb yn mwynhau eu hunain. Carai'r genethod ddiolch i Mrs. Marren, Plas Eryr, am ei rhodd garedig at dreuliau'r diwrnod. Yn ddiweddar enillodd amryw o'r genethod fathodyn nyrsio plant. Llongyfarchiadau iddynt.

### NEWID BRO

Colled fawr iawn i'r Band fydd colli Ieuan Morris aelod ffyddlon iawn ers rhai blynyddoedd. Bydd yn gadael yr ardal i fyw gyda'i frawd David yn Southampton. Mae dymuniadau gorau y Seindorf a'r pwyllgor yn mynd i Ieuan yn ei gartref newydd. Mae'r Seindorf yn awr yn ymarfer erbyn y gystadleuaeth i'w chynnal yn Butlin's ddiwedd Medi.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau cynnes i'r canlynol o bobl ieuainc y pentref ar eu llwyddiant yn Arholiadau Lefel 'A', Carolyn Evans, Tai Cynfi, Malcolm Lloyd Jones, Pentre Helen, Carol Ann Williams, Tai Marian, Maldwyn Williams, Stryd Gweledfa. Gobeithiai Malcolm gael cychwyn buan ar ei yrfa gydag un o'r Banciau Cenedlaethol, tra bydd y tri arall yn dilyn cyrsiau colegol yn eu dewis feysydd.

Ymfalchiwn hefyd yn y mesur o lwyddiant ddaeth i ran y rhai hynny o blant y pentref fu'n eistedd yr Arholiadau Lefel 'O', Da iawn!

**PWYSIG**
**Bydd y rhifyn nesaf yn dod allan ar HYDREF 1**

# SICRHAU DIOGELWCH EIN PLANT

**Dros y blynyddoedd clywsom a darllenasom am lu o gwynion am ddiffyg bae bysiau i Ysgol Brynrefail Llanrug. Cwynion oedd rhain gan gynghòrau plwy', llythyrau i'r wasg gan wahanol bobl, cwynion gan rieni am fod eu plant yn gwlychu wrth gerdded o'r sgwâr i'r ysgol.**

Cafwyd cwynion o bryd i'w gilydd am ymddygiad rhai o'r plant pan yn disgwyl am eu bysiau, yn enwedig pan 'roedd rheini'n hwyr. Yn dilyn hyn, bu llawer cais gan lywodraethwyr yr ysgol i gael bae bysiau – ond yn ofer.

### DILEU Y CYNLLUN

Daeth Cyngor Sir Gwynedd i fodolaeth yn 1974 a nodwyd bae bysiau i'r ysgol yn amcangyfrifon y Pwyllgor Addysg am 1975. Yn ystod 75 daeth gorchymyn oddi wrth y llywodraeth ganol i gynghorau sir i gyfyngu ar eu gwariannau. Un o'r cynlluniau i'w ddileu oedd cynllun bae bysiau Ysgol Brynrefail. Mewn ymateb i hyn ceisiodd y Cynghorwr Lleol ei orau i'r awdurdodau newid y penderfyniad; ac yn wir aeth dirprwyaeth o'r llywodraethwyr ynghyd â'r Prifathro i gyfarfod y Cyfarwyddwr Addysg a'i swyddswyddogion.

### SYLWADAU

Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn glir i'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Swyddogion.

1. Fod mwy o blant yn mynd i fod yn yr ysgol oherwydd codi oed ymadael i 16.
2. Fod mwy o drafnidiaeth yn mynd trwy Lanrug, ac yn debygol o waethygu oherwydd Cynllun Dinorwig.
3. Fod y ffordd gul a gerddai'r plant o'r ysgol i'r sgwâr yn beryglus iawn.
4. Fod damweiniau wedi digwydd eisoes, ac y byddai mwy o ofalaeth os byddai'r bysiau ar dir yr ysgol.
5. Gwariant unwaith ac am byth fyddai hyn.

### WEDI EI GWBLHAU

Cafodd Cynllun bae bysiau Ysgol Brynrefail bleidlais atodol gan y pwyllgor cyllid ac mae bellach wedi ei gwblhau ac mewn defnydd.

Diolch fod gennym gynghorydd sir, llywodraethwyr Prifathro ac athrawon sydd nid yn unig yn gweinyddu addysg ein plant ond yn mynd mor bell ag ymladd i'r eithaf i sicrhau eu diogelwch tu allan i'r ysgol.


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

# Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

gan EIRWEN GWYNN, PH. D.

Athro–Drefnydd y Gymdeithas yn Aberconwy, Arfon, Dwyfor a Môn

**Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr newydd ddathlu 50 mlynedd o weithgarwch tra gwethfawr yng Ngogledd Cymru. Bu'n gyfrwng yn y gorffennol i roi addysg i lawer a ddifadwyd o addysg fel arall. Erbyn heddiw, wrth reswm, mae swyddogaeth y Gymdeithas wedi newid: rhoi cyfle mae hi yn awr i bob math o bobl ledu eu gorwelion diwylliadol.**

Yn ystod y tymor diwethaf cynhaliwyd nifer o ddosbarthiadau gennym yn y cylch.

### CEFNOGAETH YN SIOMEDIG

Ni fu'r gefnogaeth i'r cyrsiau hyn cystal ag y dymunwn. Yn ardal y chwareli, lle bu unwaith fri ar ddiwylliant, buaswn wedi disgwyl yn amgenach. Mae'n wir bod anawsterau heddiw – llawer yn gweithio sifftiau, fel enghraifft. Ond yr ydym ni yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr yn barod iawn i addasu i amodau lleol.

### NEWID Y DREFN

Ni raid glynu at yr hen drefn o ddosbarth nos wythnosol. Gellir cynnal dosbarth yn y bore neu'r p'nawn; ac mewn rhai ardaloedd, byddwn yn cwrdd bob pythefnos neu dair gwaith ym mhob mis rhag mynd ar draws cyfarfodydd Merched y Wawr neu Sefydliad y Merched neu Glwb Garddio. Gwnaed trefniant o'r fath efo dosbarth newydd sbon yn Y Waunfawr – cwrdd bob pythefnos ar yr ail efo'r Gymdeithas Ddiwylliadol leol. Cafwyd llwyddiant mawr – dros ddeugain o aelodau'n mwynhau yn fawr iawn. Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, M.A., yn trafod "Llên Llafar a Llên Llyfr".

Fe ddichon na ŵyr y rheini sydd heb erioed fynychu dosbarth i oedolion am y fath fwynhad sydd i'w gael wrth wrando ar ddarlith gan arbenigwr a theulio orig ddifyr wedyn yn trafod y pwnc dan sylw. Nid mynd yn ôl i'r ysgol yw hyn – yn hytrach cael cyfle i hogi'r meddwl ac i gymdeithasu yr un pryd. Ac yn wahanol iawn i fel yr oedd hi yn yr hen amser efo dosbarthiadau'n cwrdd mewn ystafelloedd oer yng ngolau lampau paraffin, maen nhw heddiw'n mwynhau cyfleusterau a chynhesrwydd yr ysgol fodern.

### BETH AMDANI?

Beth am atfygodi dosbarth Cwm-y-Glo a fu morllwyddiannus am flynyddoedd. A beth am ddosbarth ym Mrynrefail neu Nant Peris?

Mewn rhai ardaloedd, mae bri ar ddysgu'r cynganeddion a'r dosbarthiadau wedyn yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn gyhoeddus mewn Ymryson y Beirdd. Mi hoffwn yn fawr weld datblygiad cyffelyb ym Mro'r Wyddfa.

#### BETHEL

**MAETH – Yr Allwedd i Iechyd. (Dr. Eirwen Gwynn).** Nosweithiau Gwener am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd. 6 darlith yn dechrau Ionawr 14, Tal: 75c.

#### DEINIOLEN

**HANES CYMRU – Mr. Emyr Price, B.A.** Nosweithiau Mawrth am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 10 darlith yn dechrau Medi 21. Tâl: £1.25.

#### LLANBERIS

**BYD NATUR – Mr. Henry Lloyd Owen.** Nosweithiau Iau, ac eithrio'r bedwaredd yn y mis, am 7.30 yn Ysgol Gynradd. 6 darlith yn dechrau Tachwedd 4. Tâl: 75c.

**ART APPRECIATION – Mrs. B. Mansel Owen, A.T.D.** Mondays at 7.00 p.m. at the Primary School. 20 meetings beginning September 27. Fee: £2-50.

#### LLANRUG

**HANES CYMRU O FETHODISTIAETH HYD HEDDIW – Mr. Bryn Lloyd Jones, M.A.** Nosweithiau Llun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 24 darlith yn dechrau Medi 20. Tâl: £2-50.

**MAETH– Yr Allwedd i Iechyd. Dr. Eirwen Gwynn.** Nosweithiau Mawrth, ac eithrio'r ail yn y mis, am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd. 6 darlith yn dechrau Ionawr 18. Tâl: 75c.

#### PENYPASS (LLANBERIS)

**THE CULTURAL HERITAGE OF WALES. The Staff of the Welsh Department, University College of North Wales, Bangor.** Thursday at 7.45 p.m. at the Youth Hostel. 10 lectures beginning October 14. Fee: £1-25.

#### WAUNFAWR

**BARDDONIAETH DDIWEDDAR – Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, M.A.** Nosweithiau Llun am 7.15 yn yr Ysgol Gynradd. 6 darlith Hydref 4, 11, Tachwedd 1, a wedyn bob yn ail wythnos. Tâl: 75c.

**ART APPRECIATION. Mrs. B. Mansel Owen, A.T.D.** Fridays at 7.00 p.m. at the Primary School. 20 meetings beginning September 24. Fee: £2-50.

Mae lle i ragor. Byddaf yn falch o dderbyn ceisiadau yn Nhyddyn Rhuddallt, Llanrug. Teliffon : Caernarfon 3505.

# DINORWIG

### PRIODAS ARIAN

Llongyfarchiadau i mam a dad, Mr. a Mrs. J.E. Thomas, Bwlch Gwynt, ar ddathlu eich priodas arian ar Awst 4ydd, oddi wrth Rhiad a Trebor (y plant). Mae Mrs. Eileen Thomas yn un o ddosbarthwyr *Eco'r Wyddfa* yn ardal Dinorwig.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i Miss Valmai Davies, 10, Bro Elidir, ar ei llwyddiant gyda'i arholiadau terfynol yng Ngholeg Normal Bangor, ac ar ei phenodiadi Ysgol Thomas Hughes, Caergybi.

Hefyd i Miss Shirley Williams, Bron Eilian, ar ei llwyddiant gyda'i merlen Joanne yn Sioe Amaethyddol, Caernarfon, ac i Mr. a Mrs. R.H. Thomas, Creigle, gyda'u ieir bantam yn sioeau amaethyddol Caernarfon a Môn.

### TRIP I DDOLANOG

Gorffennaf 10 trefnwyd trip dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys Dinorwig M.C. i Dolanog, cartref Ann Griffiths. Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn y capel. Gwnaed y trefniadau gan Mrs. Dilys Williams, Tŷ Capel, Mrs. Katie Griffiths, Arwelfa, Mr. Eddie W. Lewis, Rhydfadog a'r Mri. Gwilym L. Williams a Evan B. Roberts ar ran Deinolen Motors.

### ADREF O'R YSBYTY

Da gweld y rhai canlynol wedi dod adref o wahanol ysbytai: Mrs. Ann C. Jones, No. 3, Bro Elidir, o Bryn Hyfryd; Mr. Hugh L. Jones, 7, Bro Elidir, o Clatterbridge; Mrs. Medwen Griffith, Foel Cottage, o Minffordd; Mr. John Peris Roberts 11, Maes Eilian, o'r C.&A.; Mrs. L. Jones, Bron Myfyr o'r Eryri.

### PRIODAS

Gorff 30, yn Eglwys St. Mair Dinorwig, priodwyd Miss. Margaret Thomas, merch hynaf Mr. & Mrs. Hugh Thomas, 1, Bro Elidir, â Mr. Hugh Alun Roberts, mab Capt. a Mrs. H.P. Roberts, Hafan Deg, Ffordd Argoed, Brynawelon, Y Wyddgrug.


Gweinyddwyd y seremoni gan y Parch Idris Thomas, brawd y briodferch a'r Parch. R.R. Evans. Mae'r ddau yn athrawon mewn ysgolion yn y Wyddgrug. Byddant yn cartrefu yn Awel Elidir, Linda Drive, Y Wyddgrug. Dymunir bob bendith iddynt yn eu bywyd newydd.

## Fach-wen

Yn dawel yn ei gartref Bron Ceris Fachwen prynhawn Iau Awst 12fed 1976, bu farw Gwilym Closs Parry yn 75 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd prynhawn Llun, Awst 16, 1976 am 2 o'r gloch, gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Brynrefail, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Macpelah, Deiniolen. Arweiniwyd gwasanaeth byr yn y tŷ gan Y Parch. G. Angell Jones, B.A. (cyn weinidog Brynrefail) ac am weddill o'r gwasanaeth cynorthwywyd ef gan Y Parch. Stanley Williams (cyn weinidog Disgwylfa Deiniolen).

Mae ein cydymdeimlad â Mrs. Jane Ann Closs Parry, priod. Mr. & Mrs. Norman Closs Parry (mab a merch yng nghyfraith) a'r teulu oll.

Wedi'r angladd 'roedd lluniaeth wedi ei ddarparu yn Festri Capel Brynrefail trwy garedigrwydd y chwiorydd: Mrs. Jennie Maxwell, Mrs. Maggie Williams, Mrs. Eifiona Jones a Mrs. Megan Jones.



**Gilbert Jones o Lanberis yn wên o glust i glust ac yn mwynhau bob eiliad o'i daith 2 awr 12 munud 8 eiliad i fyny ac i lawr yr Wyddfa.**


**AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............**

*Eric Morris*



**Arvonia Coaches LLANRUG**

**FFÔN WAUNFAWR 254**

# BETHEL

**LLONGYFARCHIADAU:**
i Mr. a Mrs. Owen Thomas, 13, Bro Rhos a fydd yn dathlu eu priodas aur (50 mlynedd) ar y 10ed o Fedi.

**DAFYDD WIGLEY A.S.:**
Bydd Mr. Dafydd Wigley, A.S. yn cynnal Cymorthfa yn y Neuadd Goffa bore ddydd Mawrth Medi 14eg. Os ydych am gael cyfle i'w weld gallwch drefnu drwy ffonio Caernarfon 2076.

**LLONGYFARCHIADAU:**
i Mr. Bill Evans a Chôr Meibion Caernarfon ar eu buddugoliaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberteifi.

**PLAID CYMRU:**
Bydd tymor y Gaeaf yn dechrau am 7 o'r gloch Nos Wener, Medi 10ed gyda Helfa Drysor yn cychwyn o'r ysgol. Gofynnir i bawb sydd yn dymuno dod ar yr helfa roi eu henwau i Mrs. Helen Bebb, Llwyn Eithin.

**MERCHED Y WAWR**
Nos Fercher Medi 8ed am 7.30 yn yr Ysgol fe agorir y tymor newydd yng nghwmni Wil Sam. Bydd cyfle i ymaelodi yn y cyfarfod. Y tâl aelodaeth am dymor yw 50c.

**ARBRAWF GYDA'R YSGOL SUL**
Bore Sul Medi 12 fe ddechreuir arbrawf diddorol yng Nghapel yr Annibynwyr Bethel. O'r Sul yma, am gyfnod o fis, bydd yr ysgol Sul yn dechrau am 11 y bore. Er y bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn syth bydd y ddau gyfarfod yn hollol ar wahân a bydd posibilrwydd i bobl ddod i'r naill oedfa ac nid i'r llall. Mae'r gweinidog yn hyderus, os bydd yr arbrawf yn llwyddiannus , y bydd yn gyfle i adnewyddu Ysgol Sul yr oedolion.

**YN GWELLA**
Rydym yn falch o glywed fod Andrew Evans, Rhos Alun, yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Dewi Sant, Bangor.

# LLANBERIS

**CERDDOROL**
Bu Dilys Wynne Jones, 24, Dôl Elidir yn llwyddiannus yn ei arholiad piano Gradd III yn ddiweddar. Llongyfarchion iddi, a phob dymuniad da i'r dyfodol. Disgybl ydyw i Miss Williams, Summer Hill.

**ELW TAITH GERDDED**
Gwnaed elw o £225 mewn canlyniad i Daith Gerdded a adrefnwyd gan Yr Eglwys Fethodistaidd — Gylchdaith Arfon, yn ddiweddar. Dyma restr o'r arian a ddaeth i law o fewn cylch *Eco'r Wyddfa:*

**Saron (Bethel) £35.05**
**Penisarwaun£21.65**
**Deiniolen £5.00**
**Seion (Llanberis £4.80**

Dymuna'r trefnwyr ddiolch am bob cefnogaeth a gafwyd.

**CYDYMDEIMLAD**
Ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mrs. A. Catherine Williams Gwesty'r Belgrave, Llundain, gynt o 12 Rhes Faenol Llanberis. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn ac yna yr angladd ym mynwent Nant Peris.

**DIOLCH**
Dymuna Mrs. Jennie M. Jones, 81 Maes Padarn ddiolch i'r meddyg teulu, llawfeddyg a staff LSW Ysbyty Mon ac Arfon ac Ysbyty Eryri am eu medr, ac hefyd i'w chyfeillion, cymdogion a'r teulu am bob caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd diweddar.

**CWMNI LLONGAU LLANBERIS**

Allan o'r **Ford Gron** Cyf. 11, Rhif 3, Ionawr 1932.
Rhan o lythyr gan John W. Davies, Wilkes—Barre, Pensylvania UDA:

"Yn 1887 euthum i Hamburg i ymuno â'r 'bark' Glandinorwig, un o bedair llong yn perthyn i'r Eryri Shipping Co., Llanberis. Yr oedd y cwmni hwn yn cael ei lywyddu gan Mr. D.P. Williams, fferyllydd yn Llanberis, wrth droed yr Wyddfa. Mangre ryfedd, onide, i reoli llongau oedd yn hwylio eithafoedd y ddaear? Rhag ofn bod angof wedi goddiweddyd y cyfnod yma, rhoddaf enwau'r llongau:

**Glan Peris:** collwyd hi y tu allan i Penrhyn Horn. Achubwyd y dwylo.
**Glan Padarn:** Aeth ar goll ar fordaith o India. Dim sôn amdani.
**Glan Ivor:** Bu'n hwylio am flynyddoedd dan fanerau tramor.
**Glan Dinorwig:** Diweddwyd ei hoes dan faner Denmarc."

Mr. a Mrs. Gwilym Roberts,
Maespadarn.

# BRYN-REFAIL

**BEDYDD**
Yn ystod oedfa bore Sul Awst 29ain bedyddiwyd NICOLA LOUISE merch Mr. a Mrs. James Houston, 2, Trem Eilian gan y Parch. Gwilym E. Parry, Bontnewydd.

**PERSONOL**
Llongyfarchiadau calonnog i Mrs. N.F. Williams, Glanffrwd ar gyrraedd ohoni ei phenblwydd yn 80. Dathlodd y teulu yr amgylchiad trwy gael swper yng Ngwesty Plas Tan Dinas. Dymuniadau da i'r dyfodol i Mrs. Williams a'i phriod.

**CHWARAEON PLANT**
Am y tro cyntaf ers llawer blwyddyn cynhaliwyd chwareuon i blant y pentref, ac hefyd 'gemau giamocs' i'r rhai hyn!

Daeth tyrfa luosog i gae chwarae yr hen ysgol Ramadeg brynhawn Sadwrn Awst 21ain. Cafwyd benthyg y cae am y diwrnod trwy garedigrwydd Mr. W.H. Griffith Llys, a charai'r trefnwyr ddiolch o galon iddo.

Dyma rai o ganlyniadau chwareuon y plant:
Ras dan 6 oed:1.AndrewGethin Griffith , 3. Sally Ellis
Ras mewn sach — dan 9 oed: 1. Cathy Williams, 2.Delyth Nia Roberts, Christine Jones.
Ras mewn sach — dan 12 oed:1.Kevin Wyn Owen, 2. Yvonne Hughes, 3.Iestyn Jones.
Ras drithroed — pob oed: 1. Meinir Jones ac Alwen Jones, 2. Niel Rowlands a Kevin Owen, 3. Einir Evans a Noel Walters.
Ras berfa — dan 9 oed: 1. Terry Jones a Gareth Roberts, 2. Cathy Williams a Delyth Nia Roberts, 3. Einir Evans a Robin Jones.
Ras berfa — dan 12 oed: 1. Kevin Wyn Owen a David Jones, 2. Iestyn Jones ac Iwan Jones, 3. Gethin Jones a Gwyn Morris.
Ras wy ar lwy — dan 9 oed: 1. Delyth Roberts, 2. Cathy Williams, 3. Emma Roberts.
Ras wy ar lwy — dan 12 oed: 1. Delyth Owen, 2. Kelvin Houston, 3. Nerys Williams.

Roedd pedwar tîm eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y 'gemau giamocs' a deg aelod i bob tîm.

Dyma gystadleuthau'r 'gemau giamocs':
Tarpolin a dŵr; Rowlio planc ar gasgen; Ras berfa; Byrstio balŵns gyda mwgwd.

Uchafbwynt y prynhawn oedd i bob aelod o bob tîm redeg yn y ras fawr o'r cae chwarae heibio Trem Eilian, i fyny'r allt a throi am Capel Coch, allan wrth ymyl Minffordd yna'n ôl i'r cae — pellter o tua hanner milltir! Rhoddwyd rhif i'r rhedwyr fel yr oeddynt yn cyrraedd yn ôl i'r cae, fel mai'r tîm oedd gan y cyfanswm lleiaf oedd yn fuddugol. Y cyntaf i'r cae oedd Ashley Wager.

Dyma safle'r timau ar ddiwedd y dydd:
Cyfanswm pwyntiau'r timau: 1. 15; 2. 10; 3. 17; a 4. 20.

Gwelir wrth edrych ar yr uchod mai tîm 4 a orfu sef tîm Islwyn Jones.

Darparwyd lluniaeth ysgafn ar y cae i bawb oedd yn bresennol, a charem ddiolch i'r gwragedd ifanc am ofalu am hyn. Cafwyd help parod iawn Mr. a Mrs. Meredydd Foulkes, Bryn Derw i ddarparu a gofalu am ddigon o ddŵr er mwyn gwlychu pawb. Aeth Mr. Wilbert Williams a Mr. Arthur Jones o gwmpas y cae i dderbyn rhoddion ariannol er mwyn dechrau cyllid fel y gallwn yn y dyfodol sicrhau chwareuon neu garnifal yn flynyddol. Casglwyd £12.02. Yn bennaf oll carem ddiolch i'r prif drefnydd — Mr. David Glyn Ellis, Gweledfa am ofalu am bopeth, fe aeth lawer iawn allan o'i ffordd i sicrhau llwyddiant y diwrnod. Diolchwn i bawb arall fu'n trefnu, yn cymeryd rhan ac yn gwylio.


10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD



STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD



S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
(WHOLESALE FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

# CYSTADLEU-AETH LLUN YR ELIFFANT



**Gwahoddwyd Mr. Norman Williams, Swyddog Datblygu Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru i feirniadu y gystadleuaeth ar lun yr eliffant.**

Braint oedd cael fy ngwahodd i feirniadu cystadleuaeth 'Yr Eliffant' (Eco'r Wyddfa misAwst).

Ni wn yn iawn pam y gofynnwyd imi, oherwydd, hyd y gwn i, 'does yna'r un eliffant yn y teulu ond erbyn cysidro roedd yna berthynas yng nghyfraith i mi yn magu cwningod ac eliffantod yn Cesarea flynyddoedd yn ôl.

Fodd bynnag, yn ôl at y gystadleuaeth. Cafwyd sawl ymdrech reit dda fel un T.A. Davies, Llwyn, Llanrug – **"Roeddwn yn clywed fod Llanbêr am gryffhau eu tîm y tymor yma"** ac un arall gan Twm John **"Peidiwch â phoeni hogia, tydi'r trwnc ddim cymaint a'r llwnc"**.

Cafwyd nifer yn crybwyll y 'trunk calls' ond neb wedi sôn am 'trunk and disorderly'.

Anfonodd Bert Jones, Enfield House, Llanberis nifer o gynigion doniol i mewn ac yn eu plith y 'caption' gorau'n y gystadleuaeth sef **"Naddo, wir Wil, rois i ddim gwadd i'r Missus"**.

Mari o'r Bont, sydd â'r teitl gorau i'r llun sef **"Pawb yn ei dro"** ac iddi hi a Bert Jones y rhown y wobr gyntaf o £1 yr un.

# AR WERTH

**Tân Nwy "Cannon":** Mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Pris £12; 14, Dôl Eilian, Llanberis.

**Sgrin Dan (Fireguard):** "Mothercare" Pris £2. Ffôn: Llanberis 220.

**Car 'Singer Chamois' (Hillman Imp) – 1967 –** injan dwy oed (18,000 o filltiroedd). Ffôn: Waunfawr 294 (gyda'r nos) neu Llanberis 733 yn ystod y dydd.

**Bwrdd Formica a Phedair Cadair Gegin** – pren cryf; J. Davies, Bryncoch, Dinorwic, Deinolen, Gwynedd.

# YN EISIAU

**Beic 2 olwyn** addas i ferch 4 oed – Ffôn Y Felinheli 493.


# Dyddiadur y Mis

**Medi 2, dydd Iau:** Cymdeithas y Chwiorydd, Deiniolen yn cyfarfod
**Medi 3, nos Wener:** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 7.30.
**Medi 6, nos Lun:** Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30.
**Medi 7, dydd Mawrth:** 1) Undeb y Mamau, Llanberis yn cyfarfod, 2) Merched y Wawr, Cangen Llanrug yn dechrau tymor newydd.
**Medi 8, nos Fercher:** 1) Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30, 2) Merched y Wawr, Cangen Bethel yn agor tymor newydd yng Nghwmni Mr. Wil Sam yn yr Ysgol am 7.30.
**Medi 9, nos Iau:** 1) 'Ffrair Hydref' yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug am 7 o'r gloch, er budd Cronfa Adgyweirio Eglwys Sant Mihangel Llanrug. 2) Cangen Llanberis o Blaid Cymru yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30, pryd y ceir paned o goffi a sgwrs.
**Medi 10, dydd Gwener:** 1) Clwb yr Henoed, Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan, 2) Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru Bethel.
**Medi 12, dydd Sul:** Cyrddau Pregethu Eglwys Libanus, Clwt-y-Bont. Pregethir gan y Parch. J. Price Rowlands, Caergybi.
**Medi 13, dydd Llun:** 1) Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch 2) Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Peldroed Llanberis yn y Ganolfan am 7.30, 3) Sefydliad y Merched, Cangen Deiniolen yn dechrau tymor newydd yng nghwmni Mr. Richard Jones, Abergele.
**Medi 14, dydd Mawrth:** 1) Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod 2) Cyfarfod misol o Undeb y Mamau, Cwm-y-Glo, yn yr ysgol 3) Mr. Dafydd Wigley, A.S., yn cynnal Cymorthfa yn y Neuadd Goffa Bethel.
**Medi 15, dydd Mercher:** 1) Merched y Wawr, Cangen Cwm-y-Glo yn dechrau tymor newydd.
**Medi 17, nos Wener:** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 7.30.
**Medi 18, dydd Sadwrn: Gwibdaith Sefydliad y Merched,** Medi
Gwibdaith Sefydliad y Merched, Cangen Llanberis i Landudno.
**Medi 20, dydd Llun:** 1) Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch 2) Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30, 3) Dosbarth Nos, "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug am 7.00 (bob nos Lun).
**Medi 21, nos Fawrth:** Dosbarth Nos – Darlith ar "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Deiniolen am 7.00 (bob nos Fawrth am 10 darlith).
**Medi 22, nos Fercher:** Clwb y Mamau Llenberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 pryd ceir sgwrs gan y Swyddog Atal Tân.
**Medi 24, dydd Gwener:** 1) Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan; 2) Plaid Cymru, Cangen Llanrug yn cynnal Noson Goffi yn y Sefydliad.
**Medi 25, dydd Sadwrn:** 1) Taith Gerdded Noddedig. Yr elw at Glwb Peldroed, Llanrug; 2) Mr. Dafydd Wigley, A.S., yn cynnal Cymorthfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug o 10.45 – 11-45.
**Medi 27, dydd Llun:** 1) Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch 2) Gurfa Chwist dan nawdd Clwb Pel-droed Llanberis yn y Ganolfan am 7,30.
3) Dosbarth Nos Arlunio yr Ysgol Gynradd Llanberis am 7.00 (bob nos Lun)
**Medi 28, dydd Maerth:** 1) Clwb yr Heulwen Penisarwaun yn cyfarfod 2) Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod; 3) Sefydliad y Merched Cangen Penisarwaun yn dechrau tymor newydd.
**Medi 30, dydd Iau:** 1) Cymdeithas y Merched Eglwys M.C. Pontrhythallt yn cyfarfod i agor tymor newydd; 2) Sefydliad y Merched Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.00; 3) Noson Goffi ac Arwerthiant dan nawdd Pwyllgor Seindorf Arian Llanrug yn y 'Bandroom' Llanrug o 7 tan 9 o'r gloch.

**DYDDIADAU I'W COFIO:**

**Hydref 1:** Cyfarfod cyntaf Aelwyd yr Urdd, Llanberis (oedran 14-25) yn Festri Capel Coch am 7.30.
**Hydref 1:** Clwb Eryri yn dathlu ei benblwydd yn 21 ain gyda chinio yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.
**Hydref 13:** Capel Mawr Llanrug, Cwrs arbennig i athrawon a darpar-athrawon Ysgol Sul o 7 p.m. hyd 9.
**Hydref 15:** Taith Sefydliad y Merched, Cangen Gwynedd Caernarfon i Birmingham.

# Croesair Rhif 6



**AR DRAWS**

1. Acwariwm. Cartref i bysgod (7)
5. "Dengys Hwn y......erchyll Gafwyd draw yn Eden drist" Ond heb ei dreiglo. (5)
8. Planhigyn yn tyfu mewn cors (5)
9. O blegid (7)
10. Syllu (9)
12. Heb wres (3)
13. Enw bachgen (6)
14. "Hen linell bell nad yw'n bod Hen derfyn nad yw'n darfod" (6)
16. ".......a daear, tir a môr" (3)
17. Barnu'n euog (9)
20. Un heb dad neu fam, neu'r ddau (7)
21. Cylchgrawn Pop Cymraeg (5)
23. Rhoi dan sêl (5)
24. Hynod ac anghyffredin (7)

**I LAWR**

1. Cartref symudol (5)
2. Heb....na miw (3)
3. Dychrynllyd (7)
4. Trannoeth i ddoe (5)
5. Coelio (5)
6. Gwasanaethferch (9)
7. Yn dal y sylw (7)
11. Heb ei ofyn. O ewyllys (9)
13. O'ch plaid. Lles (7)
15. Griddfan (7)
17. Dwyn i gof (5)
18. Neges fer mewn ysgrifen (5)
19. Gwamal (5)
22. Byw (3)

**ATEBION RHIF 5**

**Ar Draws:** (1) Papur newydd da. (6) Awr; (7) Allt; (8) Ymgrymu; (10) Padell; (12) Yfory; (14) Gŵr; (16) Dant; (19) Cnaf; (20) Cyfleus (21) Ogof; (23) Allan; (26) Cae; (28) Egino; (29) Pedol; (32) Einioes; (33) Het; (34) Ochr; (35) A ddoi di gyda mi.

**I Lawr:** (1) Persain; (2) Planed; (3) Ysgafn; (4) Dwyfron; (5) Baw; (9) Un; (11) Cwblhau; (13) Adrodd; (15) Ifanc; (17) Myn; (18) Aur; (22) Organydd; (24) Lluosogi; (25) Enwogi; (27) Pentra; (30) Te; (31) Gro.

**ENNILLYDD CROESAIR RHIF 5: MRS. KATE OWEN, GELLI HIRBANT, LLANBERIS.**

# KEVIN DAVIES
## — RHEDWR CYFLYM

**Mae'r cwpwrdd gwydr ym mharlwr Woodford, Victoria Terrace, Llanberis yn llawn o grysau cochion, cwpanau a medalau, – tystion sylweddol i allu arbennig Kevin Davies, mab pedair ar bymtheg oed Mr a Mrs Emlyn Davies.**

**Myfyriwr ydi Kevin yng Ngholeg Burough Road, Llundain a'i gamp yw rhedeg yn eithriadol o gyflym. 'Does dim amheuaeth o gwbl nad y bachgen yma yw'r mabolgampwr gorau i ddod o Lanberis erioed, ac mae'n adnabyddus i'r rhai sydd â diddordeb mewn athletau fel sbrintiwr addawol dros ben.**




Fel disgybl yn Ysgol Brynrefail daeth ei gyfle cyntaf mewn ras ar drac wedi ei fesur, a gwnaeth yn amlwg i bawb ei fod dipyn cyflymach na'r rhelyw. Aeth ymlaen i brofi'r un peth yn chwaraeon Arfon, Gogledd Cymru a'r rhai cenedlaethol. Yn wir, 'does neb yng Nghymru wedi ei guro erioed dros 200 medr, ac mae'n dal pob record dros y mesur hwn, a'r 100 medr. Mae'n dal un record Brydeinig hefyd, sef rhedeg dros 60 medr o dan do i rai pymtheg oed.

Ni ddaw llwyddiant o'r math yma heb lawer iawn o waith caled. Mae rhedeg cyflym yn gofyn am gyflymdra, nerth, stamina, a medrusrwydd, a'r rhain yn mynnu oriau o ymarfer ar y trac a chyda phwysau. Cyn cyrraedd safon sbrintar rhyngwladol mae angen cysegru pob awr hamdden ar gyfer yr ymarferion, a phenderfynu ar fath arbennig o fyw. Rhaid gwylio'r pwysau yn ofalus, a llwyr ymwrthod oddi wrth y pethau sy'n andwyo'r corff, – sigarets, goryfed ac yn y blaen.

Ym Mae Colwyn yn 1973 y gwnaeth Kevin y penderfyniad yma, ar ôl ennill yn dda yn ei ddwy ras yng Nghyfarfod Gogledd Cymru. Gwelwyd sôn yn y papurau lleol am yr "Olympic potential" yma o Lanberis, ac aeth ati i ymarfer o ddifrif.

Yn anffodus, 'does dim cyfleusterau ar gyfer rasio yn Llanberis, ond mae angen yn magu dyfais, ac ateb Kevin oedd mesur ei drac ar y ffordd o flaen y tŷ. Daeth trigolion Victoria Terrace yn gyfarwydd iawn â'i weld yn fflachio heibio'r drws ffrynt, ac â gweld ei dad wrth y gornel hefo wats. Ar gae pêl droed Llanberis y byddai'n ymarfer cychwyn oddi ar y blociau. Bonws arall yn y cyfnod yma oedd Clwb Athletau Bangor, ac yno, o dan gyfarwyddyd Ted Stubbs y bu'n meithrin ei dechneg. Heb gefnogaeth y Clwb yma, a'i rieni, mae'n sicr na fuasai Kevin yn y sefyllfa y mae ynddi heddiw.

Bellach, wrth gwrs, mae adnoddau pwrpasol ar ei gyfer yn y coleg, ac mae'n ymarfer ar drac Crystal Palace ddwywaith yr wythnos yng nghwmni rhai o'r athletwyr sydd â'u henwau yn gyfarwydd i bawb.

Mae Kevin yn aelod o Glwb Athletau Wolverhampton a Bilston, yn un o'r ddau sydd yn ei gynrychioli yn y rasus 100 a 200 medr. Mae hefyd yn aelod o'r tîm ras gyfnewid. Yn wir, dyma'r tîm sy'n dal y record Brydeinig am y ras gyfnewid gymysgedd (medley relay) a Kevin yn rhedeg y 200 medr. Ei aelodaeth o'r Clwb yma oedd y drwydded iddo i redeg yn Rietti yn yr Eidal ym mis Mehefin eleni. Y Clwb, fel pencampwyr Prydain, oedd yn cynrychioli'r wlad yn y Chwaraeon Ewropeaidd, a chan eu bod newydd ennill y Gynghrair Brydeinig eleni eto, hwy fydd yn cystadlu ym Mharis mis Mai y flwyddyn nesaf.

Mae Kevin wedi cynrychioli Cymru eisoes naw gwaith, ac mae ganddo chwe chrys o dan ugain oed, a thri yn yr adran hŷn. Tra'n rhedeg dros Gymru o dan 20 oed enillodd bob ras 200 medr a phedair o'r chwech dros 100 medr Y cyfarfod rhyngwladol diwethaf oedd yr un ym mis Mai eleni yn Iwerddon, ac yntau'n rhedeg yn erbyn Lwcsembwrg, Portiwgal ac Iwerddon. Mae'n gobeithio cynrychioli'r tîm Prydeinig dan 20 oed yn Hambwrg yn yr Almaen ym mis Medi. Nid yw'r tîm wedi'i ddewis eto, ond mae'n croesi'i fysedd.

Wel, beth ydi safon Kevin? Ydi o am fod yn un o'r rhai enwog fel Allan Pascoe a Brendan Foster, ynteu chwythu ei blwc wnaiff o cyn cyrraedd yr uchelion? Mae'n anodd dweud, ond os oes unrhyw bwys ar gysegriad tuag at gyrraedd y nod, bydd ei ddyfodol yn ddisglair. Pedair ar bymtheg oed yw Kevin, a dydi sbrintar ddim yn cyrraedd ei orau hyd at bump ar hugain. Ei amser gorau yw 10.7 eiliad dros 100 medr; 21.8 eiliad dros 200 medr (sy'n cymharu'n dda a 10.2 eiliad a 20.3 eiliad, sef yr amserau buddugol yn y Chwaraeon Olympaidd ym Montreal yn ddiweddar).

Ei nod ar hyn o bryd yw cynrychioli Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Edmonton, Canada yn 1978, a chan gofio nad oes neb yng Nghymru i'w guro ar y 200 medr mae hynny'n edrych yn eithaf posibl. 'Does fawr i'w ddweud ganddo am y Chwaraeon Olympaidd ym Moscow yn 1980, ond mae'r posibilrwydd wedi ei hadu yng nghefn ei feddwl, ac mae'n sylweddoli y bydd yn cyrraedd ei orau fel rhedwr tua'r adeg honno.



### PELDROEDIWR

'Does dim amheuaeth mai'r un cyflymdra yw ei nodwedd bwysicaf ar y cae peldroed hefyd, gan fod posibilrwydd y gallasai fod yn ennill ei fywoliaeth drwy gicio'r bêl gron. Bu'n gapten y tri thîm yn yr ysgol, ac enillodd iddo'i hun dri chap yn nhîm dan 15 oed Cymru, gan chwarae yn erbyn yr Alban, Lloegr ac Iwerddon. Bu'n cynrychioli'r sir o dan 15 ac o dan 18 oed, ac ef oedd asgellwr tim Caernarfon pan enillwyd y Gynghrair ganddynt. Ar un cyfnod bu ar lyfrau Clwb Peldroed Wrecsam, nes iddo benderfynu mai ar y trac rhedeg yr oedd am bwysleisio. Bellach, mae'n cyfyngu ei beldroed i ambell gêm leol. Gall y rhai oedd yn gwylio'r gêm yn Llanberis y Sadwrn diwethaf dystio i'w effeithiolrwydd.

Dydi Kevin ddim yn un am chwythu'i gorn ei hun; dydi o'n poeni dim os yw pobl y pentref yn gwybod sawl cwpan neu fedal sydd ganddo ai peidio, ond os oes awydd gwybod ar rywun, bydd yn falch o ddangos ei wobrau iddynt. Mae llyfrau'n llawn o dystysgrifau, rhaglenni, toriadau o bapurau newydd a lluniau ganddo, cans dyma'i fywyd bellach.

Eto, hogyn digon diymhongar ydi o, ei draed yn gadarn ar y llawr, a'i gap peldroed cyntaf yn dal i ffitio ei ben. Mae'n derbyn y clod iddo'i hun, ond mae'n rhoi'r diolch yn ddiffuant i'w rieni. Heb eu cefnogaeth hwy "faswn i byth wedi medru rhedeg bron ar bob trac ym Mhrydain, – mae'r trafeilio'n job ddrud", a dyna'i eiriau o'i hun.

# PELDROED

### LLANRUG

A'r tymor peldroed newydd yn bythefnos oed, mae'r cyfnod rhwng diwedd un a dechrau'r llall yn mynd yn llai bob blwyddyn, yntydi? Mae'r ddau dîm lleol wedi chwarae tair gêm gynghrair heb sôn am y gemau profi.

Bu'n gyfnod llwyddiannus iawn i Lanrug yn ennill pum pwynt allan o'r chwech, – curo Nefyn o bum gôl i ddwy ar Awst 21ain; dod yn gyfartal â'r Normal ar y 25ain, a churo Pwllheli o un gôl i ddim y Sadwrn diwethaf.

Gêm gyfartal iawn oedd hon, gyda gwynt croes a thir caled yn tueddu i ddifetha symudiadau da gan y ddau dîm. 'Doedd dim dewis rhyngddynt pan yrrwyd Dafydd Horman ac un o hogia' Pwllheli oddi ar y cae am ymladd, a dim ond chwarter awr o'r gêm ar ôl. Daeth gôl Llanrug yn dilyn gwaith da rhwng Ken Jones, Geraint Hughes a Hefin Pritchard ar yr asgell chwith. Hon oedd chweched gôl Hefin y tymor hwn. Yn cynrychioli Llanrug 'roedd Nigel Hardwidge, Dafydd Horman, Rheon Thomas, Huw Hughes, Ken Jones, Geraint Hughes, John Cadwalader, Brian Jones, Hefin Pritchard, Jackie Smith, John Thomas ac Arwel Thomas.

### LLANBERIS

Drwy guro Cricieth o bum gôl i un a dod yn gyfartal â Mountain Rangers, 'roedd hi'n edrych fel dechrau da i dymor Llanberis hefyd, ond colli fu eu hanes yn erbyn y Normal ddydd Sadwrn. Hogia' o Lanberis oedd pedwar o dim y Normal, a Dick Parry o Benisarwaun yn ei gwneud hi'n bump o hogia' lleol. Yn yr hanner cyntaf gwelwyd Kevin Davies (o Lanbêr!) yn dangos ei sodlau i'r tim lleol ac yn sgorio dwy gôl dda, a Kelvin Davies yn ateb.

Cic gosb yn erbyn Ken Jones ac 'roedd y "myfyrwyr" ddwy gôl ar y blaen eto, ac er i Kelvin ateb hon hefyd, tair gôl i ddwy oedd y sgor derfynol.

Dechrau gweddol felly, ond dydi'r tymor ond babi, ac mae dau o sêr y tîm, sef Barry Pitts a Ray Harding eto i ymuno â hwy. Chwaraewyr Llanberis oedd Ted Pritchard, Gary Owen, Sel Allsop, John Pritchard, Ken Jones, Emyr Thomas, Iwan Evans, Kelvin Jones Gareth Williams, Gwilym Williams a John Ian Jones.

### CYNGHRAIR YR HAF


Ni fu diwedd ar chwarae peldroed yn ystod yr haf, gan fod Cynghrair Haf ym Mangor, a thimau o Lanberis ac Ysgol Brynrefail yn chwarae ynddi.

Mae'r gemau wedi eu cwblhau bellach, ac Ysgol Brynrefail yn ail ynddi. Tîm canol y Gynghrair oedd Llanberis, ond yn rhyfedd iawn dyma'r ddau fydd yn chwarae am Gwpan y Gynghrair.

Bydd y gêm ar gae'r Ddôl yn Llanberis am hanner awr wedi chwech ar y 6ed o Fedi.


Dewch yno'n llu i gefnogi – mae Cwpan Cynghrair Bangor yn siwr o gartrefu am flwyddyn yn ardal Eco'r Wyddfa.

# HEBOG Bach




Gan nad yw WIL WIRION byth wedi dod yn ôl o'i wyliau ar Ynys Enlli, 'does gynnon ni ddim stori amdano y mis hwn. Ond dyma ichi lun ohono ar ei wyliau. Beth am ichi ei liwio?





### DANTEITHION DRAENOG

Oddi wrth chwaer ddraenoges sy'n slafio yn un o hotels mwya Llundain daeth y newydd trist bod grugieir a phetris yn ddrud gebyst eleni. Ar y ddeuddegfed o Awst (Glorious 12th) 'roedd y crachach yn talu cymaint â deg punt am un grugiar.

**Ôl-Nodyn – £13-30c ydi pensiwn y wladwriaeth heddiw.**

## DIM CLWB

Dydd Iau, yn y Llys Ynadon, yn dilyn gwrthwynebiad gan Gyngor Eglwysi Llanberis a Llanrug gwrthodwyd cais gan CEGB i agor Clwb yfed ar safle Glyn Rhonwy.

## Syrcas

Peidiwch â chondemnio y plant da chi. Daeth stori i'r *Eco* am griw o blant "pentra" Llanberis yn cynnal Syrcas eu hunain ac yn casglu £10 tuag at Gronfa Cae Chwarae.

## THEATR yr YMYLON

yn cyflwyno
CARIAD CREULON
gan Bryn Williams
am 7.30
•

Medi 11
LLANGEFNI –
Neuadd y Dref
Tocynnau ymlaen llaw
Y Cwpwrdd Cornel
Llangefni' 722820

Medi 13
PWLLHELI –
Neuadd y Dref
Tocynnau ymlaen llaw
Siop Swits Ward Jones,
13, Penlan St., Pwllheli

Medi 14
CAERNARFON
Ysgol Syr Hugh Owen
Tocynnau wrth y drws

Medi 15
Y BALA – Ysgol y Berwyn
Tocynnau ymlaen llaw
Siop Awen Meirion
Bala 658

## Maes y Merched

### CHI'R MERCHED

**Gyda'r plant yn dychwelyd i'r ysgol mae'n anodd weithiau gwybod beth i'w gael ar gyfer pryd bwyd. Beth am y dorth frith yma i lenwi'r corneli pan ddont adref bron a llwgu!**

*Bara Brith*

*12 llwy fwrdd o de cryf*
*1 pwys o ffrwythau sych cymysg*
*6 owns o siwgr brown meddal*
*1 wy wedi ei guro*
*1 owns o fargarin*
*9 owns o flawd plaen wedi ei ridyllio â ½ llwy de lefel o bicarbonet soda.*

1. Rhowch y te, ffrwythau a siwgr mewn dysgl a chaead arni a gadewch dros nos.
2. Cymysgwch yr wy a'r margarin wedi ei doddi.
3. Plygwch i mewn yn ysgafn y gweddill o'r cynhwysion.
4. Wedi iro a leinio'r tun torth deubwys, tywalltwch y cymysgedd iddo a lefelu'r wyneb.
5. Crasu – 350oF neu Gas rif 4 am 1½ - 2 awr ar y silff ganol.
6. Gadewch y dorth yn y tun am 3 munud cyn ei throi allan. Mae'r dorth yn cadw'n dda, a gallwch ei thorri fel cacen neu yn denau a menyn.

*Picl Gwsberis*

*3 pwys o gwsberis*
*½ pwys o nionod*
*6 owns o resins*
*10 owns o siwgr*
*½ pwys o sbeis cymysg*
*1 owns o halen*
*½ owns had mwstard wedi ei falu*
*1 peint o finegr*

Torrwch y nionod yn fân a'u coginio mewn ychydig o ddŵr nes eu bod yn feddal. Peidiwch â chadw'r dŵr.

Wedi torri dau ben y cwsberis rhowch mewn sosban gyda'r nionod a gweddill y cynhwysion.

Gadewch i'r cwbl ffrwtian yn ysgafn am awr neu hyd nes bod y picl yn ddigon tew.

### MARCIAU LLAWN?

1. O ba fwyd cyffredin y ceir albumin?
2. Beth yw haggis?
3. Sawl gram sydd mewn owns?
4. Pa fitamin sydd mewn burum, blawd ceirch a bara grawn?
5. Sut mae gwneud cig yn fwy tyner cyn ei goginio?

*Atebion ar dudalen 5*

# CREU A CHYNNAL

gan ROBIN GWYNDAF (Parhad)

**A'r wobr? Dim elw ariannol i neb, ac eto pawb yn cael ei dalu'n anrhydeddus iawn. Y wobr yw gwybod y bydd y papur yn gyfrwng i gynorthwyo aelodau cymdeithas i fyw bywyd llawn, bywyd sy'n creu ac yn cynnal iaith, diwylliant a gwareiddiad.**

**Ond sut, meddech chi, y mae papur newyddion lleol yn gallu cyflawni hyn?**

1. Drwy gyflwyno'n gytbwys a theg i drigolion bro newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn y fro honno a gwneud hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
2. Drwy roi cyfle o'r newydd i'r rhai nad ydyn nhw'n arfer â darllen Cymraeg wneud hynny yn awr, oherwydd fod yr arlwy a gynigir iddyn nhw wedi'i gyflwyno'n ddifyr a darllenadwy.
3. Drwy roi cyfle i amryw na fentrodd erioed roi gair ar bapur ar gyfer ei gyhoeddi wneud hynny o'r newydd yn awr.
4. Drwy gynorthwyo i adfer urddas yr iaith Gymraeg a hyder pobl Cymru (yn arbennig ein plant a'n hieuenctid) yn ei dyfodol, gan ddangos iddyn nhw fod yr Iaith hon yn gallu bod yn gyfrwng mynegiant addas i bob agwedd ar fywyd.
5. Drwy fod yn gyfrwng i gyfannu cymdeithas – cyflwyno newyddion am aelodau o blith pob dosbarth ohoni, y byd a'r betws, a thrwy hynny ddyfnhau'r cwlwm adnabod, sail brawdgarwch a phob daioni.
6. Drwy fod yn gyfrwng i'n haddysgu am yr etifeddiaeth gyfoethog a berthyn i bob bro ac i'w gwerthfawrogi, fel y gallwn ei chyflwyno'n lân, loyw, i'n plant – ymhel â'r gorffennol, nid yn gymaint er mwyn y gorffennol, ond oherwydd mai ym mhridd y gorffennol y mae hau'r had ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

## TÎM PÊL DROED LLANRUG



*Tîm pêl-droed 1934–35, ond 'rwyf am gadw'r enwau tan y mis nesaf Beth am gystadleuaeth, gyrrwch chi'r enwau i mi. Caiff pawb wybod y mis nesaf pwy sydd â'r cof gorau.*
*Gyrrwch at: Dafydd Evans yn 5 Bryn Eglwys, Penisarwaun.*

## SIBRYDION O'R YSGOLION

Cyn diwedd tymor yr ysgol ym Mrynrefail fe gyflwynwyd cloc i Mr. Alwyn Pleming gan ddisgyblion y chweched dosbarth (ail flwyddyn). Bu Mr. Pleming yn athro dosbarth iddynt am dair blynedd, ac ni allai'r disgyblion adael heb ddangos eu diolch iddo am ei gymwynasgarwch a'i oddefgarwch tuag atynt. Fe ysgrifenwyd y penillion isod ar achlysur cyflwyno'r cloc iddo:

**Saith mlynedd yn ei gwmni ef**
**Yn gwrando ar undonogrwydd ei fref.**
**Cyflwynodd farddoniaeth, a llenyddiaeth yn llu**
**Agorodd ddrysau ein bywyd ni.**

**Yn "fform wan" edrychem yn syn**
**Ar yr athro tew yn y trowsus tyn**
**A'i lais fel taran yn fy nychryn i**
**A'r "duster" gwyn yn ein taro ni.**

**"Cymraeg Heddiw" a gaem yn ddi-stop**
**Tydi o'n gwneud dim ond siarad siop**
**Mae ei "Faxi" glas yn fudr bob tro**
**Rhaid iddo fod yn fawr i'w ffitio fo.**

**Fe gafodd siwt newydd, côt "cordoroy"**
**Ac yntau'n teimlo'n swanc a "rêl boy"**
**Belt reit anferth i ddal ei drowsus**
**'Sa fo'n llawer gwell efo bresus.**

**Yn "fform ffôr" – y 'project' gwych**
**Llechi a chwarel, pwnc reit sych**
**Eisteddai yn ddiog ar ochr y stôl**
**A ninnau'n ymdrechu'n galed yn y tu ôl.**

**Cofiem o hyd am awdurdod syn**
**Y dyn bach tew yn y trowsus tyn**
**Arholiadau a llwyddiant oedd ei destun bob dydd**
**A ninnau'n gwrando yn flinedig a phrudd.**

**Practis drama ac yfed te**
**A rhedeg fel ffyliaid ar hyd y lle**
**Y bicwarch ar goll, neu un o'r 'cast'**
**A 'Plem" yntau'n gwylltio yn goblyn o "fast".**

**Mr. Pleming mewn poen ar y noson fawr**
**"Injection" o "morphine" yn ei gadw i lawr**
**A ninnau yn actio ein gorau glas**
**Fel ceffyl yn ceisio ennill ras.**

**O Benygroes aeth lawr i'r De**
**A dod nôl â gwraig wrth ei ochr e'**
**Dylech ei chlywed ar raglen reit ddifyr**
**Yr enw, wrth gwrs – yr "Eiddoch yn Gywir".**

**Fe aeth drosodd i Lanfair P.G.,**
**A gadael ei fam yn y "surgery"**
**Ac yno mae ef yn byw yn awr**
**Mae'r enw – fel ef, yn un reit fawr.**

**Pedair ohonom a aeth i Sir Fôn**
**A'n bywyd'n y fantol *ddwy* ochr i'r lôn**
**Sôn am fwyta a "stwffio" a wnaethom ni**
**Nid pedair ohonom – ond *chwech* efo chi.**

**Un clên yw hwn, llawn hwyl a sbri**
**Yn faddeugar iawn tuag atom ni**
**Dim "detentions" na ffrae am fod yn hwyr.**
**Na, ni wnawn byth ei anghofio'n llwyr.**

**Bu gyda ni am rhyw dair blynedd llawn**
**Am ddwy yn chwarae "ping-pong" gyda dawn**
**Fe symudodd ei ddisc aml i waith**
**A'r garreg a'i poenodd wrth fynd ar ei thaith.**

**Mae'n hoff o'i bibell, a'i "Gold Block"**
**Yn siop y sgwâr, mae'r pris iddo'n sioc.**
**Bwyta cacennau a bisgedi di-ri**
**A wna Mr. Pleming ein hathro ni.**

**Diolch a wnawn am eich cwmni chi**
**A'r oriau pleserus llawn hwyl a sbri**
**Fel diolchgarwch o hyn cyflwynwn y cloc**
**Fe gofiwch amdanom wrth glywed ei dic-toc.**

*Cyfansoddwyd gan rai o ddisgyblion dawnus y chweched dosbarth.*


**ARCHEB BLWYDDYN**
**ECO'R WYDDFA**
**Drwy'r post (12 rhifyn)**
**£2**

Enw: ______________________

Cyfeiriad: ______________________

______________________

Anfoner at y Trefnydd Gwerthiant: Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.


DEDDF PARCIAU CENEDLAETHOL
A MYNEDFA I GEFNGWLAD 1949
RHAN III

## GWARCHODFA NATUR COED DINORWIG

Hysbysir yma fod Cyngor Sir Gwynedd yn unol â Rhan III Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynedfa i Gefngwlad 1949, trwy ddatganiad dyddiedig 27ain Awst 1976 yn datgan bod y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i gael ei reoli fel gwarchodfa natur.

Gellir archwilio copi o Ddatganiad y Cyngor ynghyd â chynllun yn dangos yr ardal berthnasol yn Adran Cynllunio'r Cyngor, Maesincla, Caernarfon, yn ystod oriau gwaith.

*Dyddiedig: 2ail Medi, 1976.*

*Swyddfa'r Sir,*
*Stryd y Jêl,*
*Caernarfon, LL55 1SH.*

*I. Bowen Rees,*
*Ysgrifennydd y Sir.*

YR ATODLEN

Oddeutu 90 erw o dir sy'n wybyddus fel Coed Dinorwig gerllaw Llyn Padarn Ym Mharc Gwledig Padarn yn Sir Gwynedd ac a ymddengys mewn coch ar y cynllun sy ynghlwm wrth y datganiad.

Nodyn: Am fanylion pellach ynglŷn â'r rhybudd hwn, cysylltwch a Mr. David Eagar, Caernarfon 4441 est: 7.